# GRŴP CYNGHOROL BAME Y PRIF WEINIDOG AR COVID-19

# ADRODDIAD YR IS-GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

**CADEIRYDD: YR ATHRO EMMANUEL OGBONNA**

**MEHEFIN 2020**

**Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol BAME ar COVID-19**

**Cadeirydd Yr Athro Emmanuel Ogbonna**

**Mehefin 2020**

## Crynodeb Gweithredol

1. Er bod pandemig y coronafeirws wedi codi ofn ar bobl mewn cymunedau ledled Cymru a thu hwnt, ac wedi peryglu bywydau a bywoliaeth unigolion, mae'r effeithiau ar grwpiau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) wedi bod yn arbennig o sylweddol. Mae aelodau cymunedau BAME yn dal clefyd COVID-19 ac yn marw ohono i raddau anghymesur – mae'r ystadegau sydd ar gael yn awgrymu bod grwpiau BAME ym Mhrydain hyd at ddwywaith yn fwy tebygol o farw o'r clefyd na phobl wyn ym Mhrydain. Yn y cyd-destun hwn y gwnaeth Prif Weinidog Cymru gomisiynu'r adroddiad hwn.

## Ansawdd Data Ethnigrwydd

2. Drwy adolygu tystiolaeth sydd eisoes wedi cael ei chyhoeddi o amrywiaeth o ffynonellau, a'r casgliad o dystiolaeth newydd yn sgil ymgysylltu â mwy na 400 o unigolion mewn amrywiaeth o gyfarfodydd i randdeiliaid, mae'r adroddiad yn nodi nifer o ffactorau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol allweddol sydd ynghlwm wrth y canlyniadau COVID-19 anghymesur a brofir gan aelodau cymunedau BAME. Mae'r adroddiad yn cynnwys profiadau pobl BAME yn Lloegr sy'n gyson â thystiolaeth anecdotaidd pobl BAME yng Nghymru; fodd bynnag, rhaid cael data sy'n benodol i Gymru a dylai hyn fod yn flaenoriaeth wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ac anghydraddoldebau ehangach, yn y dyfodol.

## Anghydraddoldebau Hiliol

3. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod anghydraddoldebau hiliol yn bodoli yng Nghymru. Yn sgil COVID-19, mae'r ffaith nad oes unrhyw ddata ethnigrwydd, neu ei fod o ansawdd gwael, wedi arwain at wneud penderfyniadau iechyd gwael, ac mae cymunedau BAME yn wynebu mwy o risg o ddal y clefyd a marw ohono. Hefyd, nodir profiadau o hiliaeth o grwpiau BAME penodol sydd wedi gwaethygu yn sgil COVID-19, effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth iechyd, addasrwydd diwylliannol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, incwm ac ansicrwydd o ran cyflogaeth, tai gorlawn a'r amgylchedd, y baich ariannol a gaiff ei greu gan statws mudo, trais yn erbyn menywod, plant, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a rôl anfantais a hiliaeth strwythurol a systemig.

4. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod pobl ifanc yn poeni mwy am eu dyfodol yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19, a digwyddiadau hiliol cyfredol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd y trydydd sector a hybiau cymunedol wrth sicrhau y parheir i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi o ran eu hiechyd meddwl a'u cyrhaeddiadau personol.

## Cynrychiolaeth

5. Thema gyffredinol y ffactorau a drafodir yn yr adroddiad hwn yw effaith anfantais a hiliaeth hirsefydledig, a diffyg cynrychiolaeth BAME wrth wneud penderfyniadau i sicrhau canlyniadau economaidd-gymdeithasol gwell. Er bod llawer o'r materion y tynnir sylw atynt wedi cael eu nodi a'u trafod yn flaenorol, nid aed i'r afael â nhw mewn ffordd systematig na pharhaus. Mae pandemig y coronafeirws, i ryw raddau, yn datgelu canlyniadau diffyg gweithredu o'r fath ar gydraddoldeb hiliol.

6. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am ymchwil bellach i'r materion a drafodir, a gwneir argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â phob un o'r ffactorau a nodir sy'n gosod pryderon cydraddoldeb hiliol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau o fewn y llywodraeth. Daw i'r casgliad bod angen systemau monitro a gwerthuso trawstoriadol er mwyn cyflawni

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac ymgorffori arferion nad ydynt yn ormesol o fewn pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a phob gwasanaeth arall, yng Nghymru.

**Cyflwyniad**

7. Mae'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, yn poeni bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar bobl o gefndiroedd Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), a'u bod yn profi canlyniadau iechyd andwyol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Sefydlodd Grŵp Cynghorol BAME ar COVID-19 i'w gynghori ef a'i Gabinet ar y mater hollbwysig hwn, er mwyn nodi'r camau i'w cymryd ar unwaith i ddiogelu cymunedau yng Nghymru a hefyd i argymell gwaith tymor hwy y byddai ei angen er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau.

8. Sefydlwyd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol yn benodol i nodi'r amrywiaeth o ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol andwyol o ran COVID-19 i unigolion o gefndiroedd BAME, ac i gyngori ac adrodd yn ôl ar y canlynol:

- Y prif ffactorau demograffig-gymdeithasol, daearyddol, economaidd-gymdeithasol neu ddiwylliannol a all fod yn cyfrannu at ganlyniadau andwyol anghymesur yn sgil COVID-19 i gymunedau BAME;
- Opsiynau byrdymor i atal unrhyw anghydraddoldebau sydd wedi'u nodi rhag gwaethygu;
- Hygyrchedd cyngor a chanllawiau cyfredol Iechyd y Cyhoedd i drechu COVID a'r heriau ymarferol ymhlith cymunedau BAME;
- Unrhyw rwystrau ieithyddol, ffurfiol neu ddiwylliannol, neu rwystrau eraill, i rannu gwybodaeth yn effeithiol a sicrhau bod cymunedau BAME ac amrywiol yn ei deall, ynghyd â ffyrdd o'u goresgyn;
- Cwestiynau ymchwil posibl at ddiben dadansoddiad tymor canolig a hirdymor o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau COVID-19 o fewn cymunedau BAME, gan gynnwys diwylliant, oedran, ffydd, rhywedd, anabledd a ffactorau unigol eraill, yn ogystal â rôl bosibl ffactorau systemig megis hiliaeth neu duedd anymwybodol.

**Cwmpas**

9. Er i'r grŵp weithio yn unol â'r cylch gorchwyl uchod, mae'r adroddiad yn cyfeirio at faterion ehangach (gan gynnwys meysydd cyfiawnder, plismona a mewnfudo nad ydynt wedi'u datganoli) y mae pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud sydd wedi cael effaith andwyol ar bobl BAME yng Nghymru wedi esgor arnynt.

**Aelodaeth**

10. Roedd y Grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o blith gweithwyr GIG a gofal BAME, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a Swyddogion Llywodraeth Cymru. Manteisiodd y grŵp ar arbenigedd y byd academaidd, sefydliadau o'r trydydd sector, ac ymarferwyr gwaith ieuenctid a chymunedol â gwybodaeth arbenigol am iechyd meddwl, cydraddoldeb a hawliau dynol, addysg, anghydraddoldeb rhywiol, tai a chyfiawnder cymdeithasol BAME. Er na chafodd undebau eu cynrychioli'n ffurfiol, roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys swyddogion undebau a wnaeth rannu safbwyntiau o ran cyflogaeth a datblygu'r gweithlu mewn perthynas â chyflogeion BAME.

11. Ymgysylltwyd yn eang â grwpiau cymunedol BAME, a chafodd cynrychiolwyr grwpiau cymunedol eu gwahodd i rannu safbwyntiau neu dystiolaeth benodol ynghylch profiad pobl BAME yng Nghymru. Rhestrir holl aelodau'r grŵp yn Atodiad 3.

**Methodoleg**

12. Defnyddiwyd dull cymysg, cydgynhyrchiol er mwyn canolbwyntio ar asedau cymunedol a phrofiadau beunyddiol cymunedau BAME, a hyrwyddo allbwn cyflym, yn seiliedig ar ddatrysiadau. Un flaenoriaeth gynnar oedd casglu data a fodolai eisoes a gwerthuso gwybodaeth gyfredol am y boblogaeth BAME yng Nghymru yn benodol, yng nghyd-destun y DU a thu hwnt, er mwyn ateb cwestiynau allweddol (gweler Atodiad 1). Cynhaliwyd adolygiad cyflym o ddata meintiol a oedd wedi'i gasglu fel mater o drefn ac wedi'i gyhoeddi ar ganlyniadau iechyd, ynghyd ag adolygiad o dystiolaeth feintiol ac ansoddol o'r dylanwadau economaidd-gymdeithasol a chymdeithasol ar ganlyniadau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant BAME. Ymhlith y ffynonellau roedd adroddiadau a phapurau ymchwil wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, yn ogystal â llenyddiaeth lwyd, yn cynnwys blogiau ac arsylwadau heb eu cyhoeddi. Drwy ymgysylltu'n eang â mwy na 400 o unigolion mewn amrywiaeth o gyfarfodydd i randdeiliaid, casglwyd digonedd o safbwyntiau a thystiolaeth uniongyrchol i lywio'r adolygiad hwn. Mae'r holl ffynonellau amrywiol hyn wedi cael eu dadansoddi'n ddau adroddiad[1], sef papur tystiolaeth gan y Grŵp Cynghorol BAME ar COVID-19 ar effaith bosibl COVID-19 ac Erthygl Ystadegol, sef 'Coronavirus (COVID-19) and the Black, Asian and minority ethnic (BAME) Population in Wales'[2], yn tynnu sylw at rai themâu allweddol fel blaenoriaethau ar gyfer camau gweithredu cynnar, yn ogystal ag ymchwil yn y dyfodol.

13. Mae'r hyn a brofwyd yn sgil COVID-19 wedi rhoi pwyslais penodol ar yr anghydraddoldebau dwfn a wynebir gan bobl BAME yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r camau tymor canolig a thymor hwy y mae angen eu cymryd er mwyn adfer yn rhoi cyfle i ni fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gau'r bylchau o ran cyrhaeddiad a chyflogau, trechu hiliaeth a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Mae hil, a chrefydd a chred, yn ddwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[3]. Mae cydymffurfio â dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn y Ddeddf a'r dyletswyddau penodol i Gymru, sy'n ofyniad cyfreithiol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011[4], yn allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n adnodd defnyddiol er mwyn sicrhau yr ystyrir effaith debygol polisïau arfaethedig ar grwpiau nodweddion gwarchodedig penodol, gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael cyn penderfynu rhoi polisi ar waith. Dylai cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i leihau'r anghydraddoldebau a wynebir gan bobl BAME, gan ddefnyddio pob adnodd sydd ar gael iddynt, yn cynnwys y rhai o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

14. Yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, cyhoeddodd Public Health England (PHE) ddau adroddiad ar anghydraddoldeb strwythurol[5] ac effaith wahaniaethol ar gymunedau BAME[6]. Bu

---

1 Adolygiad o dystiolaeth gan y Grŵp Cynghorol BAME ar COVID-19, Mai 2020, Llywodraeth Cymru

2 Erthygl ystadegol: Coronavirus (COVID-19) and the Black, Asian and minority ethnic (BAME) Population in Wales Llywodraeth Cymru Mehefin 2020

3 Deddf Cydraddoldeb 2010, https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents, cyrchwyd 28/05/2020

4 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales, cyrchwyd 28/05/2020

5 Public Health England Disparities in the risk and outcomes of Covid-19 2 Mehefin 2020 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/892085/disparities_review.pdf

6 Public Health England Beyond the data: Understanding the impact of Covid-19 on BAME groups 15 Mehefin 2020

Llywodraeth Cymru a PHE mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod hwn, ond cafodd adroddiad PHE ac adroddiad Llywodraeth Cymru eu datblygu ar wahân. Mae'r cytseinedd o ran eu casgliadau ac argymhellion yn drawiadol ac yn arwydd bod y naill adroddiad a'r llall yn ddilys.

**Camau Gweithredu Presennol Llywodraeth Cymru**

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020 – 2024**

15. Mae hwn yn ymrwymiad Gweinidogol sy'n bodoli eisoes ac mae'n cael ei ddatblygu i geisio dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da yn y ffyrdd mwyaf cynhwysol posibl, yn ogystal â bod yn gyson â meysydd penodol 'A yw Cymru'n Decach?'[7]. Mae nodau ac amcanion y cynllun a ddatblygir yn drawsbynciol ac yn rhyngddibynnol, ac mae'n cynnwys nod penodol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hiliol dwfn sy'n bodoli. Mae ymrwymiad eisoes wedi cael ei wneud i gyflwyno Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn 2020.

**Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

16. Cychwynnir y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol[8] yn ystod tymor y Senedd 2020. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae canllawiau i helpu rhai cyrff cyhoeddus i baratoi ar gyfer dyletswydd economaidd-gymdeithasol eisoes wedi cael eu cyhoeddi.

**Ymchwil i Gryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru**

17. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil a ddechreuodd yn gynharach yn 2020 er mwyn nodi ac argymell camau i hyrwyddo a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Disgwylir adroddiad erbyn dechrau 2021.

**Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru**

18. Yn sgil Adolygiad Chwarae Teg o Gydraddoldeb Rhywiol[9] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2018), ceir bellach Gynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru er mwyn rhoi ei argymhellion ar waith. Roedd yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn glir y dylai ystyriaethau rhyngblethol fod wrth wraidd gwaith llunio polisïau er mwyn sicrhau yr hyrwyddir cydraddoldeb go iawn yng Nghymru. Hefyd, cyflwynodd yr Adolygiad Fodel Prif Ffrydio i'w ystyried ac a fydd yn sail i'r ymchwil i hyrwyddo a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Bydd is-grŵp o'r Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar weithredu'r argymhellion.

**Themâu Allweddol yn deillio o Broses Adolygu Ffactorau Economaidd-gymdeithasol BAME**

---

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/2020/COVID_stakeholder_engagement_synthesis_beyond_the_data.pdf

7 A yw Cymru'n Decach? Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018

8 Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

9 Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol Chwarae Teg 2018 https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/06/Adolygiad-Cyflym-o-Gydraddoldeb-Rhywiol-Adroddiad-llawn.pdf

**Byw gydag Anghydraddoldeb Hiliol yng Nghymru**

19. Mae pandemig y coronafeirws wedi tynnu sylw pellach at anghydraddoldebau hiliol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru. Yn 2017, lluniodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ddogfen o'r enw Map Ffordd i Gydraddoldeb Hiliol[10] gan adeiladu ar yr adroddiad a gyhoeddwyd ganddo yn 2016, sef Uno Prydain ranedig[11]. Cafodd y Map Ffordd ei lunio mewn ymateb i Archwiliad Llywodraeth y DU o Wahaniaethau ar sail Hil[12], a thynnodd sylw at bum maes i lywodraethau weithredu arnynt, sef iechyd, addysg, cyflogaeth, cyfiawnder troseddol a thai, gan danlinellu rôl rhyngblethedd o ran anghydraddoldeb strwythurol.

20. Tynnodd adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?' EHRC yn 2018 sylw at y ffaith bod anghydraddoldeb hiliol yn dal i fodoli yng Nghymru[7]. Nododd fod troseddau casineb hiliol yn dal i ddigwydd yn llawer rhy aml yng Nghymru. Roedd hil yn ffactor cymhellol mewn dwy ran o dair (68%) o'r troseddau casineb y rhoddwyd gwybod amdanynt ac a gofnodwyd yng Nghymru yn 2018/19[13]. Mae hyn yn bryder mawr, yn enwedig o ystyried bod cynnydd mewn troseddau casineb yn dilyn refferendwm yr UE ac ymosodiadau terfysgol diweddar wedi targedu cymunedau BAME.

21. Mae'r lefelau uchel o drais a cham-drin a brofir gan rai grwpiau BAME yn dylanwadu ar y ffordd maent yn teimlo am eu hardal leol a gall arwain at deimlo'n ynysig. Mae rhwystrau i ofal iechyd, chwaraeon a hamdden yn bodoli, yn enwedig i bobl o grwpiau BAME neu i bobl lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol. Mae gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o safbwynt logistaidd a diwylliannol yn broblem benodol i deuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, ac mae gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl yn her allweddol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gall hyn waethygu ymhellach sefyllfa lle mae pobl yn teimlo'n unig ac nad ydynt yn perthyn.

22. Gall teimlo'n unig arwain at broblemau iechyd meddwl, ond nid yw'r gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael yng Nghymru yn bodloni'r gofynion. Daeth adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[14] i'r casgliad bod mwy o bobl o gymunedau BAME yn teimlo gorbryder ac yn teimlo'n ynysig o gymharu â phobl wyn gyfatebol. Mae nifer y bobl sy'n aros am driniaeth iechyd meddwl wedi dyblu dros y chwe blynedd diwethaf. Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ei chael hi'n arbennig o anodd cael gafael ar ofal iechyd meddwl. Nododd yr adroddiad fod mwy o bobl yn teimlo'n unig yng Nghymru, yn enwedig ymhlith rhai grwpiau

---

10 Map Ffordd i Gydraddoldeb Hiliol, EHRC, 2017, https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/roadmap-race-equality, cyrchwyd 28/05/2020

11 Uno Prydain ranedig: yr angen am strategaeth cydraddoldeb hiliol cynhwysfawr, EHRC, 2016, https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/healing-divided-britain-need-comprehensive-race-equality-strategy, cyrchwyd 28/05/2020

12 Race Disparity Audit Summary Findings from the Ethnicity Facts and Figures website, Cabinet Office, October 2017 (Revised March 2018), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/686071/Revised_RDA_report_March_2018.pdf, cyrchwyd 29/05/2020

13 Hate Crime, England and Wales, 2018-2019 Appendix tables https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/838452/hate-crime-1819-hosb2419-appendix-tables.ods

14 Sut rydym yn gwneud yng Nghymru? Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws, Ffocws ar ethnigrwydd, ICC

ethnig. Dywedodd un o bob pedwar o bobl o grwpiau BAME ei fod yn teimlo'n unig yng Nghymru yn 2017/18, o gymharu ag un o bob chwech o'r rhai a oedd yn wyn[15].

23. Mae rhai aelodau o gymunedau BAME wedi parhau i lwyddo mewn addysg a chyflogaeth, gyda phlant Indiaidd a Tsieineaidd yn benodol yn cyflawni cyfraddau cyrhaeddiad uchel. Mae gan ddisgyblion du lefelau cyrhaeddiad is na disgyblion gwyn Prydeinig yn ystod addysg y blynyddoedd cynnar. Mae'r bwlch cyrhaeddiad hwn yn lleihau ar lefel TGAU. Ar gyfer y cyfnod diweddaraf (2017-2019), gwnaeth 57.7% o ddisgyblion du gyflawni trothwy Cynhwysol Lefel 2[16] o gymharu â 56.5% o ddisgyblion gwyn Prydeinig. Fodd bynnag, nid yw'r bwlch hwn yn lleihau ar gyfer grwpiau BAME eraill; dim ond 11.1% o ddisgyblion Sipsiwn/Sipsiwn Roma fydd yn cyflawni'r trothwy hwn.

24. Mae bylchau cyrhaeddiad hefyd yn amlwg ar lefel addysg uwch. Er bod cynnydd cyffredinol yn y niferoedd sy'n derbyn addysg uwch, mae myfyrwyr gwyn Prydeinig yng Nghymru 8.5 pwynt canran ar y blaen i fyfyrwyr BAME o ran cyrhaeddiad.

25. Ni chaiff grwpiau BAME eu cynrychioli'n ddigonol chwaith mewn prentisiaethau ac, er i gyfraddau cyflogaeth gynyddu ledled Cymru, nid yw pawb yn elwa ar hyn. Cyflogir Mwslimiaid i raddau llai o hyd na Christnogion a phobl heb unrhyw grefydd. Ni chaiff grwpiau BAME eu cynrychioli'n ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus na'r farnwriaeth – dim ond 1% o farnwyr llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n perthyn i grŵp BAME.

**Argymhellion**

- Ym mis Mawrth 2020 ymrwymodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol i Gymru. Er mwyn ymateb i bandemig COVID-19, nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn nawr ddigwydd ar fyrder er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol. Rhaid i'r cynllun gydnabod y ffordd mae COVID-19 wedi datgelu anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes ac, mewn rhai achosion, eu gwaethygu. Mae angen i'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol olaf i Gymru arwain at Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol sylweddol a chynhwysfawr i Gymru. ***(Yn ddi-oed)***

- Llywodraeth Cymru i annog cymunedau BAME i ymgysylltu'n wleidyddol drwy godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o sefydliadau a phrosesau democrataidd yng Nghymru a'r DU, gyda'r nod cyffredinol o annog mwy o gynrychiolwyr gwleidyddol o blith cymunedau BAME drwy annog pobl o gymunedau BAME hefyd i gofrestru i bleidleisio. ***(Yn ddi-oed)***

**Ansawdd Data Ethnigrwydd**

26. Mae data ethnigrwydd o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a llawer o wasanaethau cyhoeddus eraill, yn wael. Mae Cofnod Staff Electronig y GIG yn cadw data ethnigrwydd ar 85% o gyflogeion, ond dim ond 63% o staff meddygol a deintyddol. Hefyd, ni fydd llawer o gofnodion gofal iechyd yn cofnodi ethnigrwydd y claf. Mae'r diffyg hwn yn amharu ar gywirdeb y rhan fwyaf o ddadansoddiadau o ganlyniadau iechyd, neu staff y GIG yn ôl grŵp ethnig. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddadansoddiadau o ddata ethnigrwydd, gwneir cymariaethau â data Cyfrifiad 2011, ond gwyddys nad yw'n gyfredol, o ystyried y newidiadau demograffig ers

---

15 Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18, Dangosydd canlyniadau: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019

16 Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae trothwyon lefelau yn cynrychioli nifer, neu 'faint', cymwysterau ar lefel benodol o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae trothwy 'cynhwysol Lefel 2' yn cynrychioli nifer y cymwysterau ar Lefel 2 sy'n cyfateb i 5 TGAU graddau A*-C, gan gynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg, a Mathemateg neu Rifedd. Gweler Cyflawniad Academaidd yn ôl nodweddion disgyblion, Llywodraeth Cymru.

2011. Nid oedd y wybodaeth am farwolaethau COVID-19 a gofnodwyd i ddechrau ar gyfer achosion mewn ysbytai a gadarnhawyd drwy e-Ffurflen gwyliadwriaeth Porth Clinigol Cymru yn cynnwys unrhyw ddata ethnigrwydd.

27. Cafodd grŵp ethnig ei ychwanegu fel maes at e-Ffurflen gwyliadwriaeth Porth Clinigol Cymru ar 6 Mai 2020. Fodd bynnag, dim ond mewn dau o bob tri achos y mae'r maes hwn wedi cael ei gwblhau mewn cofnodion a gyflwynwyd ers hynny. Ar hyn o bryd, ni all Cymru gael gafael ar ddata Cyfrifiad 2011, er bod cynnydd yn cael ei wneud yn hyn o beth o fewn cronfa ddata SAIL. Dynododd tystiolaeth anecdotaidd gan grwpiau BAME fod y dulliau o gofnodi data yn aml yn anghyson, na chaiff ei roi gan yr unigolyn ei hun yn aml, ac nas ystyrir yn gadarnhaol bob amser, a hynny'n gysylltiedig â'r risg o stigma a gwahaniaethu, yn hytrach na chael ei weld yn rhywbeth cefnogol.

28. Un maes sy'n peri pryder i randdeiliaid yw na chaiff data ethnigrwydd ei gofnodi ar dystysgrifau marwolaeth yng Nghymru na Lloegr. Nid yw'r broses o gofrestru marwolaethau na thystysgrifau marwolaeth yn faterion sydd wedi'u datganoli – y Swyddfa Gartref drwy'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol sy'n gyfrifol am hyn. Gan gydnabod y gall fod rhai heriau a sawl peth i'w hystyried yn hyn o beth, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Swyddfa Gartref ar 12 Mai i ofyn iddi ystyried diwygio'r broses gyfredol i gynnwys y cyfle i nodi ethnigrwydd ar ffurflenni cofrestru marwolaethau a thystysgrifau marwolaeth.

29. Gallai'r broses o ddigideiddio'r Dystysgrif Feddygol ar gyfer Marwolaeth wedi'i Chadarnhau sydd ar y gweill gynnig cyfle i ddiwygio'r dystysgrif hon a ffurflenni cofrestru er mwyn cyflwyno cwestiwn am ethnigrwydd, fel sy'n digwydd yn yr Alban ar hyn o bryd. Gall fod ffactorau demograffig eraill y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn y broses, megis cofnodi'r wlad enedigol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cymorth i ystyried hyn. Nododd 'A yw Cymru'n Decach?'[7] (2018) fod bylchau amlwg yn y data yng Nghymru sy'n ei gwneud hi'n anodd deall profiadau pobl â nodweddion gwarchodedig. Yn benodol, mae prinder data ar sail hil, crefydd neu gred, a chyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Hefyd, ceir prinder data sydd wedi'i ddadgyfuno ar ganlyniadau iechyd a gofal.

30. Argymhellodd yr adroddiad[17] y dylai Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cenedlaethol eraill sy'n casglu ac yn defnyddio data yn rheolaidd, gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Swyddfa Archwilio Cymru, Data Cymru ac Arsyllfeydd Cymru, gasglu a chyhoeddi data wedi'i ddadgyfuno yn ôl ethnigrwydd, neu gyhoeddi'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny, er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu yn fwy effeithiol. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod mwy o ddata ethnigrwydd ar gael, gan gynnwys data ar gyfraddau cyflogaeth a'r bwlch cyflog ethnig, mae mwy o waith i'w wneud, ac mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno mwy o ddadansoddiadau yn ôl ethnigrwydd, lle mae'r data ar gael, a gwneud y data sydd ar gael yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd iddo.

31. Dylai byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gasglu, monitro a dadansoddi data cynhwysfawr ar ganlyniadau iechyd a'r defnydd o wasanaethau iechyd, wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchodedig a grwpiau sy'n wynebu risg, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches[18]. Dylai dadansoddiadau data gynnwys y gwahaniaethau rhwng grwpiau BAME, yn ogystal â'r amrywiadau o fewn grwpiau, er enghraifft rhywedd, oedran, credoau crefyddol, statws economaidd-gymdeithasol a chyfeiriadedd rhywiol.

32. Lle mae data ethnigrwydd yn cael ei gasglu, mae anghysondeb o ran y categorïau a ddefnyddir a'r meintiau sampl sydd ar gael. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd cymharu data o wahanol

17 Our plan for addressing data gaps, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Mawrth 2020, tudalen 9

18 Ibid Tudalen 130 [fersiwn gryno]

ffynonellau. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau yn defnyddio categorïau Cyfrifiad 2001 o hyd, sy'n golygu nad oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer unigolion o deuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ar gyfer y dangosyddion hynny. Mae'r cwestiwn ar ethnigrwydd a ddefnyddir yng Nghyfrifiad 2021 yn debygol o gael ei fabwysiadu fel egwyddor wedi'i chysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar ethnigrwydd, a allai gael ei defnyddio gan bawb sy'n berchen ar ddata, yn cynnwys SYG.

### Argymhellion

- Mynd ati ar unwaith i wella ansawdd y broses o gofnodi data ethnigrwydd yn y GIG ac o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau cysondeb wrth gasglu, monitro ac adrodd data BAME. Argymhellir y dylai'r gwaith hwn gael ei ategu gan ymchwil ansoddol i'r dulliau gorau ar gyfer hyn, yn cynnwys lobïo i gynnwys ethnigrwydd ar dystysgrifau marwolaeth a thystysgrifau geni. ***(Yn ddi-oed)***

- Mae data yn gyffredinol yn wael ac nid yw'n dryloyw. Dylid ystyried dulliau arloesol o gysylltu â chronfeydd data er mwyn darparu gwell data ar fathau gwahanol o farwoldeb, wedi'i ddadgyfuno yn ôl gwahanol nodweddion gwarchodedig, yn cynnwys ethnigrwydd. Mae tystiolaeth ar gael eisoes ond mae angen ei dwyn ynghyd drwy gasglu ymchwil ansoddol o'r holl feysydd allweddol rydym yn canolbwyntio arnynt. ***(Yn ddi-oed)***

### Risg COVID-19

33. Dangosodd dadansoddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol o farwolaethau yn gysylltiedig â COVID-19 yng Nghymru a Lloegr[19], a gafodd gryn sylw, fod y risg o farw lle mae hynny'n gysylltiedig â COVID-19 ymhlith rhai grwpiau ethnig, yng Nghymru a Lloegr, yn sylweddol uwch nag ymhlith pobl Wyn. Mae hyn yn rhannol oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol ac amgylchiadau eraill, ond nid eglurwyd rhan o'r gwahaniaeth eto. Hyd yn oed ar ôl ystyried oedran a nodweddion demograffig-gymdeithasol eraill, a mesurau iechyd ac anabledd a hunanadroddir, roedd y risg o farw lle mae hynny'n gysylltiedig â COVID-19 ymhlith dynion a menywod Du 1.9 gwaith yn uwch na phobl Wyn, ac roedd dynion yn y grŵp ethnig Bangladeshaidd a Phacistanaidd 1.8 gwaith yn fwy tebygol o farw lle mae hynny'n gysylltiedig â COVID-19 na dynion Gwyn. At hynny, mae canfyddiadau'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys (ICNARC)[20], lle nodwyd bod traean o'r achosion hynny a gafodd ofal critigol (yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) lle cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn bobl o gefndiroedd pobl Dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, wedi cael cryn sylw hefyd.

34. Mae cyflogeion yn poeni'n arw am y risgiau sydd ynghlwm wrth COVID-19, a'r risg ychwanegol bosibl i weithwyr BAME fel grŵp sy'n wynebu risg. Eir i'r afael â hyn drwy'r adnodd asesu risg a ddatblygwyd gan yr Is-grŵp Asesu Risg – mae angen iddo gael ei ddosbarthu'n eang, gan gynnwys i bob grŵp BAME a chyflogwyr ac unigolion perthnasol, ac mae angen i gyflogwyr ei weithredu mewn ffordd gadarnhaol. Mae Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu Cymru Gyfan[21] wedi cael ei ddatblygu at ddefnydd pob aelod o staff, nid dim ond y rhai o gefndiroedd BAME. Mae hwn yn fesur angenrheidiol er mwyn osgoi rhaniadau a'r canfyddiad bod 'hierarchaeth' o fywydau pwysig.

19 Coronavirus (COVID-19) related deaths by ethnic group, England and Wales: 2 March 2020 to 10 April 2020

20 ICNARC reports on Covid-19 in Critical care 2020

21 https://llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu

35. Mae pobl BAME yn cael eu gorgynrychioli mewn rhai sectorau yn y GIG – maent yn cynrychioli dros draean o staff meddygol a deintyddol[22]. Codwyd pryderon penodol gan y grŵp am y risgiau i staff Ffilipinaidd. Mae tua 18,500 o wladolion Ffilipinaidd yn gweithio o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn y DU, y grŵp trydydd mwyaf ar ôl grwpiau gwyn ac Indiaidd. O'r mwy na 100 o weithwyr gofal iechyd sydd wedi marw ar ôl dal y feirws yn y DU, mae o leiaf 25 ohonynt wedi dod o Bilipinas (Ynysoedd Philippines), yn ôl Kanlungan, sef sefydliad ambarél grwpiau cymorth cymunedol Ffilipinaidd ledled y wlad. Mae hynny'n cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a staff ysbyty[23].

36. Bydd angen i'r Adnodd Asesu Risg gael ei rannu â gweithwyr a chyflogwyr, gan ddefnyddio rhwydweithiau presennol, megis TUC Cymru, iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, undebau llafur a Chyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol EHRC. Gall rhwydweithiau ac arweinwyr cymunedau BAME lleol chwarae rôl allweddol wrth leddfu pryderon.

37. Mae gorbryder ynghylch risgiau COVID-19 hefyd wedi gwaethygu effeithiau iechyd meddwl. Mae'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn nodi'r weledigaeth ar gyfer iechyd a llesiant meddyliol yng Nghymru.Wrth wraidd y strategaeth mae camau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol, a'i nod yw mynd i'r afael ag effeithiau anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â ffactorau economaidd-gymdeithasol.Ategir y strategaeth drawslywodraethol hon gan gyfres o gynlluniau cyflawni. Mae Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22 yn cynnwys thema ategol 'lleihau anghydraddoldebau, hyrwyddo mynediad cyfartal a chefnogi'r iaith Gymraeg'. Cydnabyddir effaith COVID-19 ar gefnogi iechyd a llesiant meddyliol a chaiff y cynllun cyflawni ei adolygu yn sgil hyn, er mwyn ystyried y camau pellach y mae angen eu cymryd.

38. Ymhlith y camau sydd wedi'u targedu mae cyflwyno cynllun ardystio arferion da iechyd meddwl yn y gweithle Diverse Cymru ledled Cymru, byrddau iechyd yn dangos eu bod yn ceisio gwella mynediad at wybodaeth mewn fformatau hygyrch, hyfforddiant Trin Pobl yn Deg, ystyried canfyddiadau HESR, a chefnogi amrywiaeth o raglenni a mentrau sy'n diogelu grwpiau agored i niwed megis ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Eir ati i gydweithio i ystyried y ffordd mae stigma a gwahaniaethu yn gysylltiedig ag iechyd meddwl drwy raglen Amser i Newid Cymru a grŵp ffocws arbennig.

**Argymhellion**

- Sicrhau bod yr adnodd risg yn cael ei ledaenu'n eang, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan gyngor cadarn i gyflogwyr a chyflogeion mewn amrywiaeth o fformatau, a ategir gan gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid clir ac amserol, ac annog defnyddio'r adnodd mewn lleoliadau y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai dulliau diogelu hefyd gael eu cynnwys yn y system er mwyn sicrhau nad yw canlyniadau'r asesiad yn cael effaith andwyol ar unigolion. ***(Yn ddi-oed)***

- Ni ddylai cyflogeion, boed hwy yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, a nodir yn rhai Risg Uchel neu Risg Uchel Iawn o dan yr Adnodd Asesu Risg, weld lleihad yn eu cyflogau/incwm am nad ydynt yn gweithio ar y rheng flaen mwyach neu eu bod yn cael eu hadleoli i waith Risg Isel. ***(Yn ddi-oed)***

22 GIG Cymru, Dadansoddiad o'r Cofnod Staff Electronig, Chwefror 2020

23 Coronavirus: Filipino frontline workers pay ultimate price in UK, Ylenia Gostali, 1 Mai 2020, https://www.aljazeera.com/indepth/features/coronavirus-filipino-front-line-workers-pay-ultimate-price-uk-200501075917665.html, cyrchwyd 29/05/2020

- Rhaid cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn ychwanegu gwerth at yr adnodd asesu risg sydd wedi'i lansio'n barod, a gwneud argymhellion ynghylch ei wella yn y dyfodol. Dylai cyflogwyr, *p'un a ydynt yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat*, gael eu cyfeirio at gymorth ynghylch sut i ddefnyddio'r adnodd risg a dylai fod yn *orfodol* iddynt ei roi ar waith fel rhan o'u harferion cyflogaeth ar ôl argyfwng COVID-19. *Dylai fod yn orfodol i gyflogwyr gadw a darparu lefel ddigonol o gyfarpar diogelu personol mewn ymateb i unrhyw risg i gyflogeion yn y dyfodol.* ***(Yn ddi-oed)***

**Profiadau o Hiliaeth**

39. Adroddir tystiolaeth o anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru gan gymunedau BAME drwy brofiadau hirdymor a pharhaus o fân-ymosod sy'n deillio o hiliaeth, a gwahaniaethu amlwg weithiau. Dywedodd rhai staff mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn llai ffafriol gan eu cydweithwyr gwyn yn ystod pandemig y Coronafeirws.

40. Dangosodd ffigurau blynyddol a ryddhawyd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer 2018-19 fod cynnydd o 10% yng Nghymru a Lloegr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ran troseddau casineb a gofnodwyd, gan gyrraedd y nifer uchaf erioed a gofnodwyd, sef 103,379. Efallai mai rhan o'r rheswm dros hyn yw bod mwy o ymwybyddiaeth ac y rhoddir gwybod am fwy o achosion, ond ni all hynny gyfrif am y cynnydd sylweddol.

41. Roedd hil yn ffactor cymhellol mewn tua thri chwarter (78,991) o'r troseddau casineb yng Nghymru a Lloegr; cynyddodd troseddau casineb 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Targedwyd Mwslimiaid mewn ychydig dan hanner y troseddau casineb yng Nghymru a Lloegr[24]. Yng Nghymru, bu cynnydd o 17% mewn troseddau casineb a gofnodwyd yn 2018-19, a hynny i 3,932 o droseddau, sef y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Roedd hil yn ffactor cymhellol mewn 68% o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru (2,676) a chynyddodd 16% ar y flwyddyn flaenorol[25].

42. Clywodd y grŵp straeon am fwy o gam-drin hiliol, troseddau casineb ac iaith casineb yn ystod pandemig y coronafeirws. Ategir hyn gan dystiolaeth o gynnydd mewn troseddau casineb yn ystod ac ar ôl digwyddiadau penodol, gan gynnwys refferendwm yr UE a'r ymosodiadau terfysgol yn 2017[26].

43. Ers Refferendwm yr UE, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Cronfa Bontio'r UE i ddyrannu £480,000 o gyllid dros ddwy flynedd drwy'r Grant Troseddau Casineb ar gyfer Cymunedau Lleiafrifol. Mae'r Grant yn helpu sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi cymunedau BAME a chymunedau crefyddol sy'n cael eu heffeithio gan droseddau casineb.

44. Hefyd, mae wedi buddsoddi £1.52m o gyllid ychwanegol yn y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol er mwyn datblygu timau cydlyniant ledled Cymru. Mae'r timau Cydlyniant yn gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau, gan gynnwys cyflwyno prosiectau i annog pobl i integreiddio sy'n meithrin cydberthnasau da yn y gymuned a monitro tensiynau ledled Cymru; mae hyn yn

---

24 Hate Crime England and Wales 2018/19, y Swyddfa Gartref, Hydref 2019, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/839172/hate-crime-1819-hosb2419.pdf , cyrchwyd 20/05/2020

25 Hate Crime, England and Wales, 2018-2019 Appendix tables https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/838452/hate-crime-1819-hosb2419-appendix-tables.ods

26 Ibid

galluogi Llywodraeth Cymru i nodi unrhyw ymyriadau pellach y gallai fod eu hangen. Yn ystod COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad wythnosol â'r heddlu, cymorth i ddioddefwyr, timau cydlyniant cymunedol a'r trydydd sector er mwyn deall yn well effaith yr hinsawdd sydd ohoni ar droseddau casineb a thensiynau yn y gymuned.

45. Rhoddwyd gwybod am achosion lle cafodd unigolion eu trin yn wahanol ac yn waeth o fewn GIG Cymru – teimlwyd bod hyn oherwydd hil neu ethnigrwydd. Gellid bod wedi ymchwilio i'r digwyddiadau hyn fel rhai hiliol neu a oedd yn gwahaniaethu o bosibl. Byddai unrhyw ymddygiad o'r fath yn anghyfreithlon ac yn gwbl groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae mwy o dystiolaeth o weithwyr BAME yn profi hiliaeth o fewn y GIG yng nghyhoeddiad diweddar y BMJ ar hiliaeth mewn meddygaeth sy'n disgrifio sawl profiad andwyol ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a chleifion BAME. Mae'r anghydraddoldebau yn cynnwys y ffaith bod menywod du bum gwaith yn fwy tebygol o farw wrth roi genedigaeth na menywod gwyn yn y DU, a bod bwlch ym mherfformiad myfyrwyr a meddygon gwyn a BAME, a'i bod yn fwy tebygol y cymerir camau disgyblu yn erbyn meddygon BAME[27]. Nodwyd profiadau tebyg gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gweithwyr eraill yng Nghymru mewn adroddiadau gan ein rhanddeiliaid.

46. Nododd y Nursing Times fod gweithwyr BAME yn teimlo dan bwysau i weithio ar wardiau COVID-19. Mewn cyfweliad â'r *Nursing Times*, dywedodd Carol Cooper, Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Cymunedol Birmingham, fod nyrsys a chynorthwywyr gofal iechyd BAME o'r farn eu bod yn cael eu dewis i weithio ar wardiau coronafeirws yn fwy na'u cydweithwyr gwyn[28].

47. Er mwyn mynd i'r afael â hiliaeth a sicrhau nad oes neb yn pryderu yn ei chylch, rhaid ymgysylltu â chymunedau BAME, gan wrando ar eu profiadau a'u pryderon go iawn ynghylch gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'u cofnodi, er mwyn cydnabod a dilysu'r hyn sydd gan gymunedau BAME i'w ddweud.Mae'r ffaith nad ymddiriedir yn y system yn rheswm allweddol dros y defnydd isel sydd o adnoddau cymorth ar lefel reoli ar hyn o bryd. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y diffyg amrywiaeth ar lefel uwch mewn rhai rhannau o weithlu'r GIG a gofal cymdeithasol.

48. Clywodd y Grŵp bryderon ynghylch y ffaith nad oedd cyfarpar diogelu personol ar gael, neu nad oedd yn briodol, a theimlwyd nad oedd modd lleisio'r pryderon hynny. Nododd arolwg[29] gan y Coleg Nyrsio Brenhinol ymhlith aelodau a oedd yn gweithio mewn amgylcheddau risg uchel ledled y DU fod llai na hanner (43 y cant) o'r ymatebwyr o gefndir BAME wedi dweud bod ganddynt ddigon o gyfarpar diogelu ar gyfer y llygaid a'r wyneb. I'r gwrthwyneb, dywedodd 66 y cant o'r staff nyrsio gwyn Prydeinig a ymatebodd fod ganddynt ddigon o'r un math o gyfarpar diogelu personol. Roedd anghysondeb tebyg o ran nifer y gynau sy'n gwrthsefyll hylifau a oedd ar gael i aelodau'r Cyngor Nyrsio Brenhinol. Dywedodd 19 y cant o staff gwyn Prydeinig nad oedd ganddynt ddigon o ynau i bara sifft; roedd y ganran honno'n cynyddu i 37 y cant ymhlith ymatebwyr BAME.

## Argymhellion

27 Racism in medicine. Y BMJ. 2020 https://www.bmj.com/racism-in-medicine

28 BME nurses 'feel targeted' to work on COVID-19 wards, Megan Ford, Nursing Times, 17 Ebrill 2020, https://www.nursingtimes.net/news/coronavirus/exclusive-bme-nurses-feel-targeted-to-work-on-covid-19-wards-17-04-2020/, cyrchwyd 29/05/20

29 PPE Survey of UK Nursing Staff report: Use and availability of PPE during the Covid-19 Pandemic

- Mynd i'r afael ag unrhyw achosion annheg neu anghyfreithlon o wahaniaethu yn y gwaith o fewn GIG Cymru, neu gan ddefnyddwyr GIG Cymru, drwy roi sylw o'r newydd i arferion nad ydynt yn ormesol, cymwyseddau cydraddoldeb ac amrywiaeth, cofnodi profiadau go iawn gweithwyr BAME, ac asesiadau systematig o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n benodol i ethnigrwydd.

- Dylid sefydlu Rhwydweithiau/Grwpiau o Staff BAME a gefnogir gan Undebau Llafur mewn Byrddau Iechyd Lleol er mwyn darparu man diogel i staff BAME fynegi pryderon heb boeni y bydd rheolwyr llinell neu reolwyr lefel uwch yn gweithredu yn eu herbyn mewn ffordd annheg. ***(Yn ddi-oed)***

- Sefydlu llinell gymorth BAME benodol a pharhaus ynghyd â fframwaith cyfrinachedd mewn canllawiau ar gyfer y gweithle, fel bod modd i gyflogeion herio'n ddiogel a chodi pryderon. Byddai hyn yn galluogi gweithwyr i godi pryderon ynghylch cyfarpar diogelu personol a phryderon eraill mewn ffordd hyderus, a gallai ddarparu model i'w ddefnyddio mewn cyd-destunau cyflogaeth ehangach. ***(Yn ddi-oed)***

- Ystyried hyfforddi cyflogwyr a chyflogeion ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol, ac ystyried sut y gall hyfforddiant gael ei ddefnyddio i wella amgylcheddau gwaith pobl BAME â chydafiachedd. Yn arbennig, gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru er mwyn darparu'r un safon o hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o faterion diwylliannol a hiliol sensitif. ***(Yn ddi-oed)***

- Cynnwys hanes/addysg BAME a'r Gymanwlad yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2022 ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd er mwyn atal hiliaeth a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol. ***(Yn ddi-oed)***

**Cyfleu Negeseuon Iechyd a Gofal Cymdeithasol Allweddol i Gymunedau BAME mewn Ffordd Effeithiol**

49. Roedd yn glir na chafodd negeseuon iechyd a gofal cymdeithasol eu cyfleu'n effeithiol i gymunedau BAME. Tynnodd trafodaethau mewn nifer o gyfarfodydd sylw at yr angen i ariannu grwpiau BAME sydd â chysylltiadau cryf ar lawr gwlad er mwyn helpu (ymhlith pethau eraill) i ledaenu negeseuon iechyd y cyhoedd allweddol, megis cadw pellter cymdeithasol a chymryd atchwanegiad Fitamin D, a'r mesurau profi ac olrhain cysylltiadau sydd ar ddod.

50. Mae nifer yr oedolion sydd naill ai byth wedi defnyddio'r rhyngrwyd neu sydd heb ei ddefnyddio yn y tri mis diwethaf, sef "pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd", wedi bod yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru. Yn 2012, roedd hyn yn cyfrif am 22.0% o'r boblogaeth oedolion, gan ostwng i 10.9% yn 2018, sy'n dal i fod yn uwch na ffigur y DU, sef 10.0%. Mae Cymru hefyd ar ei hôl hi yn y DU o ran nifer y bobl sydd â'r pum sgil ddigidol sylfaenol, gyda 66% o oedolion yng Nghymru yn meddu arnynt, o gymharu â chyfartaledd y DU, sef 79%[30].

51. Mae mentrau cymunedol, megis Hwb Digidol Abertawe Race Council Cymru (sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd) a'r ymgysylltu digidol a wneir gan EYST yn darparu rhai ffyrdd o gyrraedd pobl BAME ledled Cymru. Mae ymgysylltu digidol, ac ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol, yn allweddol. Mae rôl sefydliadau gwirfoddol a chymunedol BAME yn hollbwysig nawr, ac yn y tymor canolig a thymor hwy. Fodd bynnag, datgelodd adroddiad gan Ubele Initiative fod naw allan o ddeg sefydliad yn y sector gwirfoddol a chymunedol a arweinir gan

---

30

Exploring the UK's digital divide, Swyddfa Ystadegau Gwladol, 4 Mawrth 2019, https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/articles/exploringtheuksdigitaldivide/2019-03-04#how-does-internet-usage-vary-for-different-ethnic-groups, cyrchwyd 30/05/2020

bobl BAME mewn perygl o gau dros y tri mis nesaf[31]. Mae angen mynd i'r afael â chynaliadwyedd sefydliadau ar lawr gwlad.

**Argymhellion**

- Datblygu strategaeth gyfathrebu aml-gyfrwng glir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru ac ADSS neu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol a grwpiau BAME, sy'n nodi ffyrdd effeithiol o rannu gwybodaeth ac sy'n cynnwys cyllid ar gyfer gweithgareddau allgymorth ac ymgynghori sy'n targedu grwpiau BAME. Efallai y bydd y dull hwn yn effeithiol wrth gynyddu cyfraddau cofnodi ethnigrwydd ar ffurflenni swyddogol. ***(Yn ddi-oed)***

- Hyrwyddo gwaith cydweithredol gyda sefydliadau BAME a sefydliadau yn y sector cyhoeddus er mwyn cyflawni canlyniadau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer ein cymunedau mewn perthynas ag iechyd, addysg, cyflogaeth a thai. ***(Yn ddi-oed)***

**Addasrwydd Diwylliannol Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

52. Ystyrir ei bod hi'n anoddach cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd y rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol. Yn aml, nid ystyrir bod gwasanaethau ataliol, megis sgrinio a hybu iechyd, o unrhyw werth. Er nad ydym yn cynghori y dylid cynnig gwasanaeth sgrinio iechyd rheolaidd, dylid gwella mynediad at brofion penodol ar gyfer cyflyrau risg uwch megis risg gardiofasgwlaidd, pwysedd gwaed uchel, diabetes, deintyddiaeth, gwasanaethau rheoli pwysau a llesiant meddyliol.

53. O dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol[32] , mae gan bawb yn y DU, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, hawl i iechyd corfforol a meddyliol o'r safon uchaf bosibl, ond nid yw'r hawl hon yn cael ei harfer bob amser. Ymhlith rhai o'r prif rwystrau a brofir gan geiswyr lloches wrth geisio cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mae anawsterau i gofrestru â meddyg teulu neu ofn gorfod talu am wasanaethau o'r fath. Mae iaith yn rhwystr cyffredin arall. Dyma pam mae'r defnydd o gyfieithwyr a dehonglwyr mor bwysig er mwyn sicrhau bod pob aelod o gymunedau BAME a anwyd y tu allan i'r DU yn gallu cael mynediad llawn at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

54. Nododd 'A yw Cymru'n Decach?'[7] 2018 fod pryderon ynghylch ansawdd gwasanaethau cyfieithu a dehongli i fudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a all fod yn rhwystr arall i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl yn arbennig o wael i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

55. Hefyd, nododd fod teuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn parhau i brofi anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd. Mae mynediad gwael at ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â'r ffaith nad ymddiriedir mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a bod amharodrwydd i'w defnyddio, yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiant Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

---

31

Murray K (2020) Impact of COVID-19 on the BAME community and voluntary sector: Final report of the research conducted between 19 March and 4 April 2020;
Ubele: https://www.ubele.org/covid19-supporting-bame-communities, cyrchwyd 30/05/2020

32

Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CESCR.aspx, cyrchwyd 30/05/2020

56. Mae'r broses anghyson o fonitro grwpiau â nodweddion gwarchodedig a grwpiau sy'n wynebu risg yn ei gwneud hi'n anodd asesu eu gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl a phennu eu canlyniadau iechyd a llesiant[7].

**Argymhellion**

- Monitro strategaethau cyfathrebu iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn asesu effeithiolrwydd lleihau rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol a chynyddu'r defnydd o wasanaethau sgrinio a hybu iechyd ymhlith pobl BAME. ***(Yn ddi-oed)***

- Ariannu rhaglen hybu iechyd BAME ledled Cymru yn debyg i'r Prosiect Gweithwyr Iechyd Troednoeth[33] a wnaeth gyflogi ymarferwyr iechyd o gefndiroedd Affricanaidd Caribïaidd, Asiaidd, Arabaidd a Somali er mwyn nodi anghenion iechyd yn eu priod gymunedau, a datblygu a chynnal gweithgareddau diwylliannol briodol er mwyn diwallu eu hanghenion. ***(Yn ddi-oed)***

- Rhannu'r neges bod meddygon teulu yn dal i fod ar gael dros y ffôn ac mewn ffyrdd eraill. Yn y tymor hwy, mae angen sicrhau ei bod hi'n haws gweld meddyg teulu drwy glinigau dydd cymunedol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd. ***(Yn ddi-oed)***

- Adolygu iechyd a gofal cymdeithasol BAME presennol mewn partneriaeth â grwpiau, sefydliadau a chleifion BAME er mwyn gwerthuso priodolrwydd gwasanaethau a gwella'r broses o'u darparu yn y dyfodol, yn ogystal â lleihau'r risgiau iechyd a wynebir gan bobl BAME. ***(Yn ddi-oed)***

- Ymrwymo i gefnogi ac ariannu camau gweithredu parhaus ac ymarferol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl priodol a theg, sy'n addas yn ddiwylliannol, i unigolion o gefndiroedd BAME er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a gydnabyddir sy'n bodoli o ran defnyddio a darparu gwasanaethau iechyd meddwl. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio'r Cynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol Iechyd Meddwl BAME sydd wedi'i gefnogi gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, ac unrhyw gamau ymarferol eraill o'r fath. ***(Yn ddi-oed)***

**Sicrwydd Swyddi ac Incwm**

57. Mae cynlluniau cymorth COVID-19 ym meysydd gwaith a chyflogaeth yn rhai nad ydynt wedi'u datganoli gan fwyaf ond mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae i liniaru'r effaith anghymesur ar bobl BAME yng Nghymru.

58. Bydd y coronafeirws yn effeithio ar bob gweithle a chyflogai. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr argyfwng hwn yn effeithio ar un rhyw yn fwy na'r llall. Er mai dynion sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o achosion gofal critigol, mae'r Grŵp Cyllideb Menywod wedi tynnu sylw at y ffaith bod effaith anghymesur ar fenywod, er enghraifft am mai nhw sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o weithwyr iechyd a gofal a gweithwyr ar gyflog isel.[34] Mae gweithwyr iau a hŷn, cyflogeion BAME a phobl anabl hefyd yn wynebu anfantais a gwahaniaethu anghymesur yn sgil y coronafeirws, o ran eu rolau cyfredol a'u cyfranogiad tymor hwy yn y farchnad lafur.

---

33 Cronfa Anghydraddoldebau Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007 Prosiect Gweithwyr Iechyd Troednoeth

34 Grŵp Cyllideb Menywod (Ebrill 2020), Crises Collide: Women and Covid-19

59. Yn ei ddadansoddiad ar gyfer Cymru a Lloegr, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS)[35] yn nodi bod pobl BAME benodol yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn sectorau sydd wedi cau i lawr. Dywed, ledled Cymru a Lloegr, fod dynion Bangladeshaidd bedair gwaith yn fwy tebygol na dynion gwyn Prydeinig o fod yn gweithio mewn diwydiannau sydd wedi cau i lawr, a hynny i raddau helaeth am fod nifer sylweddol ohonynt yn gweithio yn y sector bwytai, ac mae dynion Pacistanaidd bron i deirgwaith yn fwy tebygol, yn rhannol am fod niferoedd sylweddol ohonynt yn gyrru tacsis. Mae dynion du Affricanaidd a du Caribïaidd 50% yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau i lawr na dynion gwyn Prydeinig.

60. Dynoda dadansoddiad o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer Cymru[2] fod cyfran ychydig yn uwch o weithwyr BAME yn gweithio mewn diwydiannau y dywedwyd wrthynt am gau nag ym mhob diwydiant arall, ond roedd hyn yn amrywio'n sylweddol o fewn y diwydiannau, gyda phobl o gefndiroedd BAME yn cyfrif am 11% o'r cyflogeion mewn gweithgareddau gwasanaethau bwyd a diodydd yng Nghymru.

61. Hefyd, noda'r IFS fod pobl BAME benodol yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig. Ymhlith y rhai o oedran gweithio, mae dynion Pacistanaidd a Bangladeshaidd yn llawer mwy tebygol o fod yn hunangyflogedig. Nid oes dadansoddiad manwl o ethnigrwydd ar gael ar gyfer Cymru, ond yn gyffredinol nid yw cyfran y bobl BAME a oedd yn hunangyflogedig yn wahanol iawn i bobl eraill.

62. O ran gweithwyr allweddol a'r rheini wedi'u cyflogi mewn galwedigaethau sy'n wynebu risg uwch o COVID-19 (fel y'i dynodwyd gan ddadansoddiad o farwolaethau COVID-19 fesul galwedigaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[36]), dengys y dadansoddiad o gyflogeion yng Nghymru fod y rhai o gefndiroedd BAME wedi'u gorgynrychioli mewn gofal iechyd (11.2% o gyflogeion yn BAME) a gofal cymdeithasol (7.2%), yn ogystal â gyrwyr tacsis a chauffers (40.2%) a chogyddion (22.8%).

63. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi mesurau diogelu ariannol ar waith ar gyfer llawer o gyflogeion a chyflogwyr; fodd bynnag, bu dryswch ynghylch cymhwysedd pobl hunangyflogedig[37] a gweithwyr yn yr economi gìg. Mae'r sefyllfa ddigynsail hon wedi datgelu'r diffyg hawliau cyflogaeth sylfaenol megis tâl salwch sy'n golygu nad oes gan lawer o weithwyr yn yr economi gìg unrhyw ddewis ond parhau i weithio. Mae'r math hwn o waith yn talu cyflog isel ac yn ansicr yn aml, a gorgynrychiolir gweithwyr ifanc[38] a chymunedau BAME.[39] Mae mesurau i liniary caledi ariannol yn hanfodol i weithwyr yn yr economi gìg. Hefyd, codwyd pryderon am y diffyg cymorth i bobl hunangyflogedig, lle mae nifer sylweddol o grwpiau ethnig penodol, yn enwedig dynion Pacistanaidd a grwpiau Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.[40]

---

35 Are some ethnic groups more vulnerable to COVID-19 than others?, IFS , 2020

36 Covid-19 related deaths by occupations, England and Wales, deaths registered up to and including 20 April 2020

37 Mae menywod hunangyflogedig llawn amser yn ennill 66% o enillion blynyddol dynion hunangyflogedig llawn amser ar gyfartaledd. Gweler yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018), 'Family Resources Survey 2017-18'.

38 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2018), 'The characteristics of those in the gig economy'.

39 Noda gwaith dadansoddi gan y Grŵp Cyllideb Menywod fod menywod BME deirgwaith yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ansicr ac felly yn anhebygol o fod yn gymwys i gael tâl salwch statudol na bod ar ffyrlo. Gweler Grŵp Cyllideb Menywod (Ebrill 2020), Crises Collide: Women and Covid-19

40 Zubaida Haque, Ymddiriedolaeth Runnymede (Mawrth 2020), 'Coronavirus will increase race inequalities',

64. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i bandemig y coronafeirws gyda phecyn cymorth i fusnesau, unigolion a gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn ategu a llenwi bylchau cynlluniau Llywodraeth y DU[41]. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd â TUC Cymru yn amlinellu'r hyn y disgwylir i gyflogwyr ei wneud yn ystod y pandemig hwn.

65. Dengys tystiolaeth gan Busnes yn y Gymuned mai grwpiau BAME a ddioddefodd fwyaf yn dilyn dirwasgiad 2008, o gymharu â'r mwyafrif gwyn, gan waethygu anghydraddoldebau a fodolai eisoes gyda lefelau diweithdra uwch, enillion is, cyfraddau hunangyflogaeth is a chostau tai uwch. Pryder a godwyd yn aml oedd swyddi nad ydynt yn cynnig sicrwydd sy'n talu cyflog isel, â chontractau dim oriau, gan weithio i sawl cyflogwr (yn enwedig yn y system gofal), ac oriau afreolaidd a/neu ormodol, heb fawr ddim cefnogaeth yn y gweithle, gan waethygu tlodi ac ansicrwydd o ran bwyd. Mae myfyrwyr hŷn â theuluoedd yn grŵp arall sy'n agored i niwed. Nodwyd mai nifer bach oedd yn aelod o undeb.

**Argymhellion**

- **Darparu mesurau diogelu incwm i bobl BAME sy'n agored i niwed drwy ymestyn y cynllun ffyrlo i'r bobl fwyaf agored i niwed a thrwy ddatblygu polisïau sy'n mynd i'r afael â thlodi ac ansicrwydd a waethygwyd gan COVID-19.** (*Tymor canolig*)

    - Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob cyflogwr sydd wedi cael cymorth ariannol ganddi yn ystod yr argyfwng ac sydd felly wedi ymrwymo i egwyddorion Contract Economaidd yn deall ei rwymedigaethau'n llawn o ran cydraddoldeb ac arferion gwaith teg, a'i fod wedi rhoi ei weithlu ar ffyrlo lle y bo'n briodol. Ei gwneud yn orfodol i'r cyflogwyr hyn gynnal asesiadau priodol o'r effaith ar gydraddoldeb, a gyhoeddir ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

    - Gan fod y cynllun ffyrlo wedi'i ymestyn tan fis Hydref, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun paru swyddi/adleoli a arweinir gan bartneriaeth gymdeithasol (undeb, cyflogwr, darparwr, sector, arbenigwyr cymunedol) ledled Cymru, a allai fod yn gyfle i ymdrin â'r bylchau mewn galwedigaethau yn ystod yr argyfwng economaidd, gan roi gwell siawns i gymunedau BAME ddod o hyd i waith a lliniaru colledion swyddi hirdymor a mynediad i'r farchnad swyddi. Bydd hyn yn gofyn am ddatblygu cysylltiadau llawer gwell â gwybodaeth ranbarthol a/neu leol am y farchnad lafur a phrinder sgiliau, a fyddai o werth ar ôl yr argyfwng.

- **Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro a, lle y bo modd, liniaru effaith anghymesur pandemig y coronafeirws a'r dirwasgiad tebygol ar bobl BAME.** *(Yn ddi-oed)*

    - Fel rhan o 'Ailgodi'n Gryfach'[42], sef menter i greu economi drosiannol wyrddach a chyfiawn, dylai Llywodraeth Cymru weithio i sefydlu cynlluniau prentisiaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n targedu gweithwyr BAME a gweithwyr ifanc. Gellid defnyddio cynllun prentisiaeth clodwiw Llywodraeth Cymru fel sail i hyn.

    - Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Banc Datblygu Cymru. Ei ffocws strategol yw cefnogi busnesau a diogelu swyddi yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi

---

41 Datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru, 20 Ebrill 2020, https://llyw.cymru/llywodraeth-cymru-yn-rhyddhau-cefnogaeth-fusnes-ychwanegol-o-100m-wrth-ir-gronfa-cadernid-economaidd-dderbyn-nifer-digynsail-o-geisiadau, cyrchwyd 30/05/20

42 Bargen Newydd Werdd y DU https://www.buildbackbetter.org/

rhestr o'r holl fusnesau a mentrau y mae pobl BAME yn berchen arnynt ac yn eu rhedeg sydd wedi cael cymorth gan Fanc Datblygu Cymru.

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob cynllun datblygu economaidd rhanbarthol (a ddatblygir ar hyn o bryd), ac ymgysylltiad â datblygu'r Cydbwyllgorau Corfforaethol newydd a fydd yn goruchwylio gwaith datblygu economaidd lleol ac â'r gwaith pellach ar gynlluniau i ddisodli cyllid Ewropeaidd yn cynnwys cynrychiolaeth deg gweithwyr, arloeswyr, a pherchenogion busnes o bob sector, ac arweinwyr rhyngblethol o wahanol genedlaethau o gymunedau BAME.

- Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod prosesau recriwtio dienw a phaneli cyfweld amrywiol yn orfodol yn y sector cyhoeddus datganoledig ac yn rhan o amod unrhyw fusnes neu gwmni sy'n cael cyllid economaidd at ddiben adferiad economaidd a thwf ar ôl COVID.

- **Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i ymestyn cymorth ariannol i weithwyr yn yr economi gìg a'r hunangyflogedig.** *(Tymor canolig)*

  - Dylai'r egwyddorion a'r canllawiau ar y defnydd priodol o drefniadau oriau heb eu gwarantu mewn gwasanaethau datganoledig yng Nghymru gael eu cyflwyno ym mhob rhan o'r sector preifat yng Nghymru sydd wedi bod yn cael cymorth gan y llywodraeth yn ystod y pandemig.
  - Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa arbennig ar gyfer gweithwyr sy'n wynebu'r risg o COVID-19 a gaiff ei hymestyn i bawb nad ydynt yn gymwys i gael tâl salwch gan eu cwmni ym mhob sector. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol i bobl hunangyflogedig, megis gyrwyr tacsis a gweithwyr llawrydd, a gweithwyr BAME mewn gwaith ansicr yn y diwydiant bwyd, y celfyddydau a'r sector llety, y mae COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol arnynt.

- **Gweithio gyda chyflogwyr ac undebau er mwyn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal fel mater o drefn ac yn cael eu hystyried yn fuddsoddiad yn y gweithlu, nid baich na sgil-effaith talu cyflogau isel neu gyflogi gweithwyr ar gontractau dim oriau.** *(Yn ddi-oed)*

  - Mae'r diffyg cydfargeinio a strwythurau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol yn ffactor allweddol sydd wedi esgor ar broblemau enfawr a hynod beryglus, gan gynnwys o ran dosbarthu cyfarpar diogelu personol, materion iechyd a diogelwch eraill, a gweithwyr a ddylai fod yn hunanynysu sy'n gorfod dewis rhwng methu cael dau ben llinyn ynghyd neu beryglu eu cleientiaid a'u cydweithwyr am mai dim ond Tâl Salwch Statudol y gallant ei gael.

- **Dylai'r contractau caffael ar gyfer contractau dim oriau nodi y dylai pobl agored i niwed, gan gynnwys gweithwyr BAME a gweithwyr sy'n destun gofynion fisa (megis trothwy incwm), allu cael eu talu'n llawn os bydd angen iddynt warchod eu hunain neu roi'r gorau i weithio ar y rheng flaen.** *(Tymor canolig)*

  - Os bydd angen i weithwyr risg uchel a gweithwyr BAME roi'r gorau i weithio ar y rheng flaen, yn dilyn asesiadau risg COVID-19 iechyd a diogelwch unigol, dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i ddiogelu eu hincwm, rhoi sicrwydd swydd iddynt a'u galluogi i gamu ymlaen yn eu gyrfa. I'r rhai sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preifat, lle mae cyflogwyr yn dweud na ellir dod o hyd i waith addas amgen i weithwyr, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adleoli gweithwyr yn y GIG neu rannau eraill o lywodraeth leol tra bo'r pandemig yn parhau.

- Llywodraeth Cymru i ymrwymo i ehangu'r rhaglen Gwell Swyddi yn Agosach i Gartref a defnyddio hyblygrwydd llawn rheoliadau caffael er mwyn cefnogi cynllun sy'n defnyddio diffiniad ehangach o anfantais na'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu y gallai'r prosiect gynyddu o ran cwmpas yn sylweddol a chynnig cyfleoedd gwaith gwirioneddol a chynaliadwy i weithwyr BAME yng Nghymru.

**Tai, Gorlenwi a'r Amgylchedd**

66. Mae dadansoddwyr o 'Inside Housing'[43] wedi awgrymu bod marwolaethau COVID-19 yn gysylltiedig â thai gorlawn, nifer y tai mewn amlfeddiannaeth, aelwydydd mewn llety dros dro a phrinder tai cymdeithasol ar lefel leol. Mae data poblogaeth a thai yn dangos yn glir bod mwy o orlenwi mewn cymunedau BAME, yn ogystal â lefelau uwch o rent a allai arwain at lety llai diogel. Mae hyn yn ffactor hysbys iawn sy'n effeithio ar ganlyniadau iechyd a llesiant. Mae angen ystyried fforddiadwyedd hefyd. Mae teuluoedd BAME yn aml yn fwy o faint na theuluoedd gwyn cyffredin. Felly, maent yn dueddol o rentu tai y gallant eu fforddio, a fydd yn cynnwys ystafelloedd llai ac ystafelloedd a rennir.

67. Dengys dadansoddiad o Gyfrifiad 2011 yng Nghymru[2] fod tai gorlawn (hynny yw tai â llai o ystafelloedd gwely nag sydd eu hangen er mwyn osgoi rhannu annymunol) i'w gweld fwyaf aml ymhlith teuluoedd sy'n Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig ac aelwydydd Bangladeshaidd a du eraill (gyda mwy na chwarter y bobl yn y grwpiau hyn yn byw mewn tai gorlawn); roedd tua un o bob pum aelwyd du Affricanaidd a Phacistanaidd yn byw mewn tai gorlawn hefyd. Mae hyn o gymharu ag un o bob ugain o bobl wyn Brydeinig a oedd yn byw mewn tai gorlawn.

68. Yn 2013 dangosodd[44] y Sefydliad Cydraddoldeb Hiliol mai ymhlith grwpiau du Affricanaidd a Bangladeshaidd roedd gorlenwi ledled Cymru a Lloegr i'w weld fwyaf (gydag ychydig dros draean o aelwydydd yn byw mewn llety gorlawn).

69. Gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011, dangosodd y Sefydliad Cydraddoldeb Hiliol, ledled Cymru a Lloegr, fod aelwydydd Bangladeshaidd (63 y cant) ac aelwydydd du Affricanaidd (75 y cant) yn fwy tebygol nag aelwydydd gwyn Prydeinig o ddioddef 'amddifadedd tai' (mae'r dangosyddion ar gyfer hyn yn cynnwys gorlenwi a dim gwres canolog). Mae teuluoedd gwyn sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr Gwyddelig saith gwaith a hanner yn fwy tebygol o brofi amddifadedd o'r fath.

70. Yng Nghymru, dengys y dadansoddiad diweddaraf[2] fod y rhai o gefndiroedd BAME yn fwy tebygol o rentu eiddo nag aelwydydd gwyn. Roedd mwy na thri chwarter y bobl o gefndir ethnig du yng Nghymru yn byw mewn eiddo wedi'i rentu ac o blith y rhai a oedd yn rhentu, roedd bron i ddwywaith yn fwy mewn tai cymdeithasol o gymharu â llety rhent preifat. Roedd grwpiau BAME eraill, os oeddent yn rhentu, yn fwy tebygol o fod mewn llety rhent preifat.

71. Dengys dadansoddiad ymchwiliol diweddar o ardaloedd bach lle ceir cyfran uwch o'r boblogaeth BAME a'r tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael (WIMD 2019 dangosydd tai o ansawdd gwael) fod perthynas rhwng yr ardaloedd bach hynny sydd â chyfran uwch o drigolion BAME ac ardaloedd sy'n fwy tebygol o fod â thai o ansawdd gwael mewn ardaloedd trefol. Nid yw hyn yn wir am rannau gwledig o Gymru fodd bynnag.

43 “ The housing pandemic: Four graphs that show the link between Covid-19 deaths and the housing crisis https://www.insidehousing.co.uk/insight/the-housing-pandemic-four-graphs-showing-the-link-between-covid-19-deaths-and-the-housing-crisis-66562

44 Understanding Ethnic Inequalities in housing; Analysis of the 2011 Census, Sefydliad Cydraddoldeb Hiliol, 2013

72. Yn 2011, roedd mwy na 50 y cant o'r bobl yn y grwpiau Indiaidd, gwyn Prydeinig, Pacistanaidd, gwyn Gwyddelig a Tsieineaidd yn byw mewn cartref roeddent yn berchen arno'n gyfan gwbl neu'n berchen arno â morgais. Ymhlith grwpiau du Affricanaidd (24 y cant) ac Arabaidd (27 y cant) roedd bod yn berchen ar gartref ar ei isaf. Rhwng 1991 a 2011 gwelwyd y gyfran o bob grŵp ethnig a oedd yn berchen ar gartref yn gostwng[45].

73. Rhwng 2014 a 2017, roedd tua 679,000 (3%) o'r 23 miliwn o gartrefi amcangyfrifedig yn Lloegr yn orlawn (hynny yw, roedd ganddynt lai o ystafelloedd gwely na'r hyn roedd ei angen i osgoi rhannu annymunol). Roedd tua 2% o gartrefi gwyn Prydeinig yn profi gorlenwi, o gymharu â 30% o gartrefi Bangladeshaidd (y ganran uchaf). Gan ystyried pob grŵp economaidd-gymdeithasol, a grwpiau oedran, y rhan fwyaf o ranbarthau a bandiau incwm, ni waeth p'un a oeddent yn berchen ar eu cartref neu'n ei rentu, roedd cartrefi gwyn Prydeinig yn llai tebygol o fod yn orlawn [46]na chartrefi o'r holl grwpiau ethnig eraill gyda'i gilydd.

74. Mae problemau difrifol o ran llety ceiswyr lloches[47]. Gweler adroddiad y Senedd yma. Gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru ystyried ymchwilio i gyfraddau heintio mewn llety a ddefnyddir gan geiswyr lloches lle mae pobl yn cael eu gorfodi i rannu ystafelloedd. Ym mis Mai 2020, rhoddodd darparwr llety dystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Llywodraeth[48] , a nododd fod gan 98 o bobl symptomau amheus. Mae hefyd yn wir bod pobl sy'n cael problemau llety yn fwy tebygol o brofi anawsterau eraill, megis mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd, ffôn a hanfodion eraill mewn bywyd, os o gwbl.

75. Llygredd aer yn yr awyr agored yw'r risg amgylcheddol fwyaf i iechyd ac mae'n effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai, megis plant, pobl hŷn a phobl â phroblemau gyda'r galon neu'r ysgyfaint yn fwy tebygol o deimlo'r effeithiau. Yn arbennig, gall ysgyfaint plant ddatblygu'n wael a gallant brofi symptomau asthma am eu bod yn cael eu hamlygu i lygredd aer. Mae'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, lle mae iechyd ac ansawdd aer yn dueddol o fod waethaf, hefyd yn fwy tebygol o gael eu niweidio gan lygredd aer. Yn yr ardaloedd hyn, am fod amddifadedd a dylanwadau iechyd gwael yn gallu cyfuno gan olygu bod pobl yn llai abl i ymdopi â llygredd aer, neu addasu iddo, gall risgiau ac effeithiau fod yn waeth o gymharu â mannau eraill.

76. Mae'n anodd amcangyfrif effaith llygredd aer ar iechyd. Mae Pwyllgor arbenigol y DU ar Effeithiau Meddygol Llygredd Aer yn amcangyfrif bod llygredd aer yn gyfrifol am effaith sy'n cyfateb i rhwng 28,000 a 36,000 o farwolaethau (ar oedrannau nodweddiadol) bob blwyddyn. Gan fod ansicrwydd o hyd ynghylch cyfrifo amcangyfrifon, mae'r Pwyllgor yn argymell cyflwyno ffigurau fel ystod yn hytrach nag amcangyfrif canolog. Yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael (ar gyfer 2017), mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod baich amlygiad i lygredd aer yn yr hirdymor yn cyfateb i rhwng 1,000 a 1,400 o farwolaethau (ar oedrannau nodweddiadol) bob blwyddyn yng Nghymru.

---

45 Inequality, Housing and Employment Statistics, Sefydliad Cysylltiadau Hiliol, http://www.irr.org.uk/research/statistics/poverty/, cyrchwyd 30/05/2020

46 Ethnicity Facts and Figures, https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/housing/housing-conditions/overcrowded-households/latest#main-facts-and-figures, cyrchwyd 30/05/2020

47 Adroddiad y Senedd ar Lety Ceiswyr Lloches https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11012/cr-ld11012-w.pdf

48 Tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mai 2020 https://committees.parliament.uk/event/917/formal-meeting-oral-evidence-session/

77. Ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud, nodwyd yn eang fod ansawdd aer wedi gwella. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o arbenigwyr er mwyn darparu asesiad cywir o'r effeithiau posibl ar lygredd aer. Nod y gwaith hwn yw pennu effeithiau cyfredol ar gyfer ystod o lygryddion a sut y gall unrhyw ostyngiadau gael eu cynnal wrth i fywyd ddychwelyd i normal ar ôl COVID-19. Bydd y gwaith dadansoddi yn helpu i bennu cyfeiriad polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol, ac yn sicrhau y gellir datblygu gwybodaeth a deunydd cyfathrebu yn benodol i Gymru er mwyn ymdrin yn effeithiol â chynnydd yn niddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau. Er bod amcangyfrif effaith amlygiad i lygredd aer yn wyddoniaeth ansicr, mae tystiolaeth gref y gall llygredd aer niweidio iechyd. Mae'r bwysig asesu a deall risgiau llygredd aer, ond ni ddylai gwneud hynny oedi'r gwaith o wella ansawdd aer ac iechyd y cyhoedd.

**Argymhellion**

- Comisiynu ymchwil bellach er mwyn ymchwilio i gysylltiadau posibl rhwng tai gorlawn a haint COVID-19, a gorfodi darparwyr tai ac awdurdodau lleol i weithredu ar yr argymhellion. ***(Yn ddi-oed)***

- Datblygu opsiynau llety symud ymlaen i ffoaduriaid sy'n gadael llety'r Swyddfa Gartref nad oes ganddynt unrhyw le arall i fynd a lle nad yw'r gwasanaeth cynghori cyfredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ddigon[49]. ***(Tymor canolig)***

**Ymgysylltu â Phobl Ifanc mewn Cymunedau BAME er mwyn Hybu Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

78. Mae'r penderfyniad i gau ysgolion oherwydd COVID-19 yn cael effaith ychwanegol ar bobl ifanc BAME ac mae'n debygol y byddant dan ddwbl yr anfantais oherwydd gorlenwi, llai o le i weithio ac i chwarae, llai o fynediad i TG i weithio o bell, a mwy o ansicrwydd o ran bwyd.

79. Mae plant a phobl ifanc BAME eisoes dan anfantais yn y system addysg fel y nodwyd yn gynharach. Mae pryderon bod plant a phobl ifanc BAME yn teimlo effaith cau ysgolion yn fwy nag eraill. Mewn tai gorlawn, gall fod yn anos dod o hyd i le tawel i weithio. Hefyd, mae pryderon na all plant a phobl ifanc BAME gael yr un lefel o gymorth ar gyfer ysgol gartref, mewn rhai achosion oherwydd y rhwystrau ieithyddol a wynebir gan eu rhieni.

80. Mae rhieni BAME yn poeni am eu plant yn dychwelyd i'r ysgol oherwydd effaith anghymesur COVID-19. Mae tystiolaeth o Loegr yn awgrymu bod amharodrwydd i anfon plant i'r ysgol wrth i fwy o lefydd mewn ysgolion fod ar gael o fis Mehefin 2020[50]. Os yw hyn yn wir ac na fydd plant a phobl ifanc BAME yn dychwelyd i fyd addysg ar yr un pryd â'u cyfoedion, gall bylchau cyrhaeddiad, sydd wedi lleihau yng Nghymru, ddechrau tyfu eto.

**Argymhellion**

- Hyrwyddo Cynllun Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru er mwyn i deuluoedd a phobl ifanc BAME ddeall yn well sut i gydweithio a thargedu cymorth er mwyn atal bylchau cyrhaeddiad rhag tyfu o bosibl fel y nodir yn y Cynllun Parhad Dysgu – 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu[51]. ***(Yn ddi-oed)***

---

49 Tai Pawb 2019 https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2019/06/FINAL-Tai-Pawb-Refugee-Housing-Feasibility.pdf

50 'No additional risk to BAME children returning to schools', Tom Dare, 19 Mai 2020, https://www.msn.com/en-gb/news/newsbirmingham/no-additional-risk-to-bame-children-returning-to-schools-says-health-chief/ar-BB14jdyV, cyrchwyd 30/05/2020

51

- Cyfarwyddo Awdurdodau Lleol i ddarparu gliniaduron neu iPads a mynediad i'r rhyngrwyd i ddisgyblion BAME sydd dan anfantais gymdeithasol er mwyn iddynt allu parhau i ddysgu, fel y nodir yn y Cynllun Parhad Dysgu sy'n mynd ati i drechu allgáu digidol a darparu adnoddau ac arweiniad i rieni a dysgwyr ar iechyd a llesiant mewn ffordd gynhwysol a theg. ***(Yn ddi-oed)***

**Baich Ariannol Ychwanegol Statws Mudo a Chostau Fisa a Gordal Iechyd**

81. Cydnabyddir nad yw'r swyddogaeth hon wedi'i datganoli ond nodwyd bod hyn yn bwysau ariannol sylweddol ac yn bryder parhaus i'r rhai nad oes ganddynt statws preswylydd sefydlog.

82. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am fudo ac, yn sgil COVID-19, mae wedi nodi y dylid ymestyn fisâu dros dro am gyfnod byr i'r rhai sydd yn y DU y mae eu fisâu ar fin dod i ben, a gwnaeth rai newidiadau penodol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y GIG. Rhaid i'r ffurflenni gael eu cwblhau yn Saesneg a hynny ar-lein[52]. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i rai pobl ddefnyddio'r gwasanaeth heb gymorth. Mae'r un broblem yn bodoli i'r bobl hynny sydd am newid eu cais am fisa i un tymor hwy, sydd â chost ariannol.

**Argymhelliad**

- Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU ynghylch lleihau costau fisâu, yn enwedig i'r rheini sydd yn y band incwm isel o ran yr incwm (cyflog) sy'n ofynnol er mwyn noddi gŵr neu wraig neu blant o dramor. ***(Tymor canolig)***

**Trais yn erbyn menywod, plant, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

*83.* Dengys tystiolaeth ryngwladol fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynyddu yn ystod argyfwng, ac mae gwledydd sydd ar y blaen i'r DU o ran cromlin COVID-19 yn nodi cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt. Mae'r cyfyngiadau symud yn ei gwneud hi'n anos i ddioddefwyr gael help ac maent yn galluogi cyflawnwyr i'w rheoli hyd yn oed yn fwy. Er bod mesurau eisoes yn cael eu rhoi ar waith, er mwyn galluogi dioddefwyr i gael y cymorth sydd ei angen arnynt, ac er mwyn cynllunio ar gyfer y cynnydd mewn galw a ddisgwylir wrth lacio'r cyfyngiadau symud, mae'n bwysig mynd i'r afael â'r risgiau a'r rhwystrau penodol a wynebir gan y gymuned BAME, yn ogystal â'r rhai a wynebir gan y boblogaeth yn ehangach, a rhoi mesurau priodol ar waith i'w datrys.

84. Bydd angen cyrraedd dioddefwyr gwahanol mewn ffyrdd gwahanol, felly yr hyn sy'n allweddol yw rhannu gwybodaeth am gymorth yn eang ac mewn sawl ffordd wahanol. Er mwyn trin pob dioddefwr yn deg, yn hytrach na gweld anghydraddoldebau hiliol strwythurol, systemig yn ymwreiddo'n ddyfnach, ni ddylid anwybyddu anghenion penodol menywod a merched BAME wrth gynllunio a rhoi mesurau ar waith. Nid yw ymyriadau byrdymor a gwaith cynllunio hirdymor yn bethau ar wahân: mae angen y ddau er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng presennol, gan sicrhau hefyd fod yr arferion da sy'n cael eu datblygu yn ystod y pandemig yn gallu parhau a datblygu wedyn.

**Argymhellion (yn ddi-oed)**

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grŵp Arwain ar Drais ar Sail Anrhydedd a sefydliadau BAME er mwyn nodi'r risgiau a'r rhwystrau hyn, a chymryd camau i'w lliniaru.

---

Llywodraeth Cymru 2020 Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu

52 Coronavirus (COVID-19) advice for UK visa applicants and temporary UK residents, Gov.Uk, 29 Mai 2020, https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-advice-for-uk-visa-applicants-and-temporary-uk-residents#inside-UK, cyrchwyd 30 Mai 2020

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi sefydliadau menywod BAME fel y gallant sefydlu canolfannau galw heibio dros dro, lle cedwir pellter cymdeithasol, mewn lleoliadau diogel er mwyn cynnig ffordd ddiogel a hygyrch i fenywod gael help ar adeg lle byddant ond yn gadael y tŷ am gyfnodau byr ac ar gyfer tasgau hanfodol, megis siopa am fwyd.

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau menywod BAME er mwyn dod o hyd i atebion digonol i ddiogelu a chefnogi menywod BAME a'u plant, lle mae'r sawl sy'n eu cam-drin yn cwtogi ar eu symudiadau, ac yn eu hatal rhag cael cymorth a chael gafael ar adnoddau, a all esgor ar ymyriad brys.

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhwydweithiau newyddion a chyfryngau cymdeithasol prif ffrwd a lleiafrifol er mwyn rhannu gwybodaeth am drais yn erbyn menywod a phlant.

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried anghenion iaith cymunedau amrywiol a sicrhau y gall darparwyr gwasanaeth gael gafael ar gymorth a gwasanaethau cyfieithu.

**Mynd i'r Afael ag Anfantais ac Anghydraddoldeb Strwythurol a Systemig o ran Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n Deillio o Ddiwylliant Hirsefydledig o Hiliaeth yn ein Cymdeithas Ehangach**

85. Gwyddys bod anfantais strwythurol yn cael ei hwyluso drwy fynediad gwahaniaethol at iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth a thai, ac mae rhywfaint o hyn eisoes yn cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau a gesglir fel mater o drefn.

86. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[53] yw corff cydraddoldeb a hawliau dynol cenedlaethol Prydain Fawr, a sefydlwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006, ac mae ganddo amrywiaeth o bwerau gorfodi. Mae ei bŵer cynnull yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i arwain a chefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gydraddoldeb hiliol, gan weithio gyda EYST, Race Council Cymru a sefydliadau allweddol eraill, gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Yn 2016, sefydlodd Llywodraeth y DU ei Huned Anghyfartaledd Hiliol[54] er mwyn casglu a dadansoddi data ethnigrwydd, a chefnogi adrannau eraill Llywodraeth y DU i wella eu data a'r gwaith o ddatblygu polisïau. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid oes uned debyg yng Nghymru.

87. Yn 2017, nododd Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol[50] fod 26% o sampl gynrychioliadol o'r cyhoedd ym Mhrydain o'r farn ei bod yn dangos "llawer" neu "ychydig" o ragfarn tuag at bobl o hil arall. Yn yr un modd, nododd Arolwg Cymdeithasol Ewrop yn 2014 fod 18% o ymatebwyr o'r DU o'r farn bod rhai hilion neu grwpiau ethnig yn cael eu geni'n llai deallus, ac roedd 44% o'r farn bod rhai hilion neu grwpiau ethnig yn cael eu geni i weithio'n galetach. Yn anffodus, mae agweddau o'r fath wedi'u gwreiddio mewn ffyrdd sy'n golygu bod aelodau o gymunedau BAME dan anfantais ym mhob agwedd ar fywyd. Yn wir, fel y mae pandemig y coronafeirws yn ei ddatgelu, mae gwahaniaethu ar sail hil yn esgor ar ganlyniadau niweidiol i grwpiau BAME, nid dim ond oherwydd yr effeithiau andwyol ar eu bywoliaeth, ond hefyd oherwydd y ffyrdd y mae'n peryglu eu bywydau.

88. Clywyd am lofruddiaeth George Floyd yn Minneapolis yn UDA wrth inni orffen gweithio ar yr adroddiad hwn ac mae'r protestiadau a welwyd yn sgil ei lofruddiaeth wedi cael eu gweld

---

53 Home Page | Equality and Human Rights Commission cyrchwyd 30/05/2020

54 https://www.gov.uk/government/organisations/race-disparity-unit/about, cyrchwyd 30/05/2020

50 http://natcen.ac.uk/our-research/research/racial-prejudice-in-britain-today/ cyrchwyd 1/06/2020

ledled y byd mewn ffyrdd sydd wedi tynnu sylw at ganlyniadau niweidiol hiliaeth systemig. Mae pobl ifanc BAME yng Nghymru (a gefnogir yn aml gan eu cymheiriad gwyn) wedi bod yn arbennig o lafar yn ystod y cyfnod hwn ac maent yn mynnu newidiadau parhaol drwy amrywiaeth o weithredu ar-lein ac yn bersonol. Er nad yw rhai o'u pryderon a'u galwadau wedi cael eu trafod o fewn cwmpas cyfyngedig yr adroddiad hwn, maent yn deillio o'u rhwystredigaeth â'r ffaith bod hiliaeth ac anghyfiawnder cymdeithasol yn dal i fodoli heddiw. Dylai'r argymhellion yn yr adroddiad hwn (yn enwedig yn y rhan olaf hon) fod yn gam cyntaf angenrheidiol tuag at ddechrau mynd i'r afael â'u pryderon nhw a phryderon pobl eraill mewn cymunedau BAME.

**Argymhellion**

- Penodi Eiriolwr Cydraddoldeb Hiliol annibynnol i Gymru, er mwyn llywio'r newid strwythurol a pholisi sydd ei angen i drechu anghydraddoldebau hiliol a hiliaeth systemig. ***(Tymor canolig)***

- Sefydlu Uned Anghyfartaledd Hiliol o fewn Llywodraeth Cymru fel bod materion BAME wrth wraidd y gwaith o lunio polisïau drwy gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data BAME sy'n unigryw i Gymru er mwyn asesu cynnydd wrth wella canlyniadau iechyd a chanlyniadau cymdeithasol ehangach ***(Yn ddi-oed)***

- Llunio'r Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol i Gymru ac ymrwymo i'w rhoi ar waith mewn addewidion Maniffesto etholiadau yng Nghymru. ***(Yn ddi-oed)***

**Casgliadau**

89. Dylai argymhellion yr adroddiad hwn gael eu hystyried gan y Prif Weinidog a'i Gabinet a'u gweithredu yn ddi-oed. Dylid sefydlu system monitro ac adrodd a dylid cyflwyno gwybodaeth reolaidd i'r Cabinet am gynnydd ac anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a chanlyniadau llesiant cyffredinol.

90. Dylid datblygu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a dulliau eraill er mwyn sicrhau bod penderfyniadau Gweinidogol sy'n effeithio ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bod arferion nad ydynt yn ormesol yn cael eu rhoi ar waith o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau eraill, yng Nghymru.

**Atodiad 1: Cwestiynau allweddol ar gyfer yr adolygiad:**

**Beth yw maint a natur unrhyw risg ychwanegol o COVID-19 i bobl BAME ac a ellir osgoi niwed?**

- Deall y gwahaniaethau mewn niferoedd a chyfraddau profion rhwng grwpiau ethnig drwy astudio data COVID-19 ac ethnigrwydd o'r holl ffynonellau sydd ar gael, gan gynnwys ICC, Cronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW), cofnod staff electronig, Canolfan Ymchwil ac Archwilio Genedlaethol Gofal Dwys, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a WCCP ac achosion a gadarnheir mewn labordy;
- Deall y gwahaniaethau o ran derbyn cleifion i'r ysbyty rhwng grwpiau ethnig gan ddefnyddio systemau gwyliadwriaeth lefel uwch er mwyn cyfrifo niferoedd a chyfraddau derbyniadau, derbyniadau unedau gofal dwys/dibyniaeth uchel, a chanlyniadau eraill;
- Deall y gwahaniaethau o ran cyfraddau marwolaeth rhwng grwpiau ethnig gan ddefnyddio achosion sydd wedi'u cadarnhau mewn labordy, data marwolaethau, data cydafiachedd SAIL a gwaith dadansoddi pellach

**A ddylid rhoi unrhyw fesurau iechyd a diogelwch yn y gwaith ychwanegol ar waith i bobl BAME a sut y dylai risgiau gael eu hasesu?**

- Asesu cyfraddau amlygiad gan ddefnyddio data enwadu ethnigrwydd ymhlith cyflogeion y GIG drwy ddefnyddio data Cofnod Gwasanaeth cyflogaeth y gweithlu;
- Adolygu'r broses asesu risg a'r cyngor i gyflogeion iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi sylw arbennig i bresenoldeb cydafiachedd a allai effeithio ar risg COVID;
- Adolygu'r cyngor ar gyfarpar diogelu personol i grwpiau sy'n wynebu risg ac unrhyw ddull o ymdrin â phryderon ynghylch y ffaith nad oes dim ar gael;
- Adolygu mesurau ethnigrwydd mewn protocolau rhoi gwybod am farwolaethau a digwyddiadau RIDDOR

**A oes unrhyw ymyriadau neu fesurau iechyd y cyhoedd neu dai ychwanegol a fyddai'n lleihau unrhyw effaith anghymesur ar gymunedau BAME yn sgil COVID-19?**

- Adolygu'r angen posibl i roi cyngor dietegol neu gyngor iechyd arall er mwyn lleihau risg COVID mewn cymunedau BAME;
- Adolygu hygyrchedd cyngor ac arweiniad ar gadw pellter cymdeithasol ac unrhyw heriau ymarferol i gyflawni hyn mewn cymunedau BAME;
- Adolygu effaith tai a gorlenwi ar y gallu i gadw pellter cymdeithasol
- Gweithio gyda grwpiau cynrychioliadol BAME er mwyn lleihau unrhyw rwystrau ieithyddol neu ddiwylliannol, neu rwystrau eraill, i rannu a deall negeseuon iechyd y cyhoedd yn effeithiol ymhlith grwpiau BAME a gwella'r broses o gyfleu gwybodaeth iechyd yn effeithiol
- Cynghori ar benderfynyddion a ffactorau economaidd-gymdeithasol posibl eraill a all ddylanwadu ar ganlyniadau COVID-19 gwaeth i grwpiau BAME, gan gynnwys ffactorau diwylliannol, tuedd anymwybodol, oedran, rhywedd a llythrennedd, ac awgrymu opsiynau i wrthdroi unrhyw anghydraddoldebau

**Beth yw'r cwestiynau nad ydynt wedi'u hateb ynghylch COVID-19 a chymunedau BAME, a pha ddata neu astudiaethau sydd eu hangen arnom er mwyn eu hateb?**

- Ystyried cwestiynau ymchwil, methodoleg a chanfyddiadau ar BAME a COVID-19 gan PHE sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt;
- Gwneud sylwadau ar dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a rhoi cyngor ar opsiynau ynghylch mesurau diogelu ychwanegol priodol i unigolion BAME yng Nghymru;

- Nodi ymchwil sy'n bodoli o fewn y DU a thu hwnt a allai fod o fudd i gymunedau BAME yng Nghymru, a manteisio arni

**Atodiad 2: Crynodeb o'r Argymhellion**

**Anghydraddoldeb Hiliol yng Nghymru**

1. Ym mis Mawrth 2020 ymrwymodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol i Gymru. Er mwyn ymateb i bandemig COVID-19, nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn nawr ddigwydd ar fyrder er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol. Rhaid i'r cynllun gydnabod y ffordd mae COVID-19 wedi datgelu anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes ac, mewn rhai achosion, eu gwaethygu. Mae angen i'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol olaf i Gymru arwain at Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol sylweddol a chynhwysfawr i Gymru. ***(Yn ddi-oed)***

2. Llywodraeth Cymru i annog cymunedau BAME i ymgysylltu'n wleidyddol drwy godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o sefydliadau a phrosesau democrataidd yng Nghymru a'r DU, gyda'r nod cyffredinol o annog mwy o gynrychiolwyr gwleidyddol o blith cymunedau BAME drwy annog pobl o gymunedau BAME hefyd i gofrestru i bleidleisio. ***(Yn ddi-oed)***

**Ansawdd Data Ethnigrwydd**

3. Mynd ati ar unwaith i wella ansawdd y broses o gofnodi data ethnigrwydd yn y GIG ac o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau cysondeb wrth gasglu, monitro ac adrodd data BAME. Argymhellir y dylai'r gwaith hwn gael ei ategu gan ymchwil ansoddol i'r dulliau gorau ar gyfer hyn, yn cynnwys lobïo i gynnwys ethnigrwydd ar dystysgrifau marwolaeth a thystysgrifau geni. ***(Yn ddi-oed)***

4. Mae data yn gyffredinol yn wael ac nid yw'n dryloyw. Dylid ystyried dulliau arloesol o gysylltu â chronfeydd data er mwyn darparu gwell data ar fathau gwahanol o farwoldeb, wedi'i ddadgyfuno yn ôl gwahanol nodweddion gwarchodedig, yn cynnwys ethnigrwydd. Mae tystiolaeth ar gael eisoes ond mae angen ei dwyn ynghyd drwy gasglu ymchwil ansoddol o'r holl feysydd allweddol rydym yn canolbwyntio arnynt. ***(Yn ddi-oed)***

**Risg COVID-19**

5. Sicrhau bod yr adnodd risg yn cael ei ledaenu'n eang, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan gyngor cadarn i gyflogwyr a chyflogeion mewn amrywiaeth o fformatau, a ategir gan gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid clir ac amserol, ac annog defnyddio'r adnodd mewn lleoliadau y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai dulliau diogelu hefyd gael eu cynnwys yn y system er mwyn sicrhau nad yw canlyniadau'r asesiad yn cael effaith andwyol ar unigolion.

6. Ni ddylai cyflogeion, boed hwy yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, a nodir yn rhai Risg Uchel neu Risg Uchel Iawn o dan yr Adnodd Asesu Risg, weld lleihad yn eu cyflogau/incwm am nad ydynt yn gweithio ar y rheng flaen mwyach neu eu bod yn cael eu hadleoli i waith Risg Isel. ***(Yn ddi-oed)***

7. Rhaid cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn ychwanegu gwerth at yr adnodd asesu risg sydd wedi'i lansio'n barod, a gwneud argymhellion ynghylch ei wella yn y dyfodol. Dylai cyflogwyr, *p'un a ydynt yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat*, gael eu cyfeirio at gymorth ynghylch sut i ddefnyddio'r adnodd risg a dylai fod yn *orfodol* iddynt ei roi ar waith fel rhan o'u harferion cyflogaeth ar ôl argyfwng COVID-19. *Dylai fod yn orfodol i gyflogwyr gadw a darparu lefel ddigonol o gyfarpar diogelu personol mewn ymateb i unrhyw risg i gyflogeion yn y dyfodol.* ***(Yn ddi-oed)***

**Profiadau o Hiliaeth**

8. Mynd i'r afael ag unrhyw achosion annheg neu anghyfreithlon o wahaniaethu yn y gwaith o fewn GIG Cymru, neu gan ddefnyddwyr GIG Cymru, drwy roi sylw o'r newydd i arferion nad ydynt yn ormesol, cymwyseddau cydraddoldeb ac amrywiaeth, cofnodi profiadau go iawn gweithwyr BAME, ac asesiadau systematig o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n benodol i ethnigrwydd.

9. Dylid sefydlu Rhwydweithiau/Grwpiau o Staff BAME a gefnogir gan Undebau Llafur mewn Byrddau Iechyd Lleol er mwyn darparu man diogel i staff BAME fynegi pryderon heb boeni y bydd rheolwyr llinell neu reolwyr lefel uwch yn gweithredu yn eu herbyn mewn ffordd annheg. ***(Yn ddi-oed)***

10. Sefydlu llinell gymorth BAME benodol a pharhaus ynghyd â fframwaith cyfrinachedd mewn canllawiau ar gyfer y gweithle, fel bod modd i gyflogeion herio'n ddiogel a chodi pryderon. Byddai hyn yn galluogi gweithwyr i godi pryderon ynghylch cyfarpar diogelu personol a phryderon eraill mewn ffordd hyderus, a gallai ddarparu model i'w ddefnyddio mewn cyd-destunau cyflogaeth ehangach. ***(Yn ddi-oed)***

11. Ystyried hyfforddi cyflogwyr a chyflogeion ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol, ac ystyried sut y gall hyfforddiant gael ei ddefnyddio i wella amgylcheddau gwaith pobl BAME â chydafiachedd. Yn arbennig, gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru er mwyn darparu'r un safon o hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o faterion diwylliannol a hiliol sensitif. ***(Yn ddi-oed)***

12. Cynnwys hanes/addysg BAME a'r Gymanwlad yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2022 ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd er mwyn atal hiliaeth a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol. ***(Yn ddi-oed)***

**Cyfleu negeseuon iechyd a gofal cymdeithasol allweddol yn effeithiol i gymunedau BAME**

13. Datblygu strategaeth gyfathrebu aml-gyfrwng glir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru ac ADSS neu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol a grwpiau BAME, sy'n nodi ffyrdd effeithiol o rannu gwybodaeth ac sy'n cynnwys cyllid ar gyfer gweithgareddau allgymorth ac ymgynghori sy'n targedu grwpiau BAME. Efallai y bydd y dull hwn yn effeithiol wrth gynyddu cyfraddau cofnodi ethnigrwydd ar ffurflenni swyddogol. ***(Yn ddi-oed)***

14. Hyrwyddo gwaith cydweithredol gyda sefydliadau BAME a sefydliadau yn y sector cyhoeddus er mwyn cyflawni canlyniadau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer ein cymunedau mewn perthynas ag iechyd, addysg, cyflogaeth a thai. ***(Yn ddi-oed)***

**Addasrwydd diwylliannol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

15. Monitro strategaethau cyfathrebu iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn asesu effeithiolrwydd lleihau rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol a chynyddu'r defnydd o wasanaethau sgrinio a hybu iechyd ymhlith pobl BAME. ***(Yn ddi-oed)***

16. Ariannu rhaglen hybu iechyd BAME ledled Cymru yn debyg i'r Prosiect Gweithwyr Iechyd Troednoeth a wnaeth gyflogi ymarferwyr iechyd o gefndiroedd Affricanaidd Caribïaidd, Asiaidd, Arabaidd a Somali er mwyn nodi anghenion iechyd yn eu priod gymunedau, a datblygu a chynnal gweithgareddau diwylliannol briodol er mwyn diwallu eu hanghenion. ***(Yn ddi-oed)***

17. Rhannu'r neges bod meddygon teulu yn dal i fod ar gael dros y ffôn ac mewn ffyrdd eraill. Yn y tymor hwy, mae angen sicrhau ei bod hi'n haws gweld meddyg teulu drwy glinigau dydd cymunedol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd. ***(Yn ddi-oed)***

18. Adolygu iechyd a gofal cymdeithasol BAME presennol mewn partneriaeth â grwpiau, sefydliadau a chleifion BAME er mwyn gwerthuso priodolrwydd gwasanaethau a gwella'r broses o'u darparu yn y dyfodol, yn ogystal â lleihau'r risgiau iechyd a wynebir gan bobl BAME. ***(Yn ddi-oed)***

19. Ymrwymo i gefnogi ac ariannu camau gweithredu parhaus ac ymarferol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl priodol a theg, sy'n addas yn ddiwylliannol, i unigolion o gefndiroedd BAME er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a gydnabyddir sy'n bodoli o ran defnyddio a darparu gwasanaethau iechyd meddwl. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio'r Cynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol Iechyd Meddwl BAME sydd wedi'i gefnogi gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, ac unrhyw gamau ymarferol eraill o'r fath. ***(Yn ddi-oed)***

**Sicrwydd Swyddi ac Incwm**

20. **Darparu mesurau diogelu incwm i bobl BAME sy'n agored i niwed drwy ymestyn y cynllun ffyrlo i'r bobl fwyaf agored i niwed a thrwy ddatblygu polisïau sy'n mynd i'r afael â thlodi ac ansicrwydd a waethygwyd gan COVID-19.** (*Tymor canolig*)

Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob cyflogwr sydd wedi cael cymorth ariannol ganddi yn ystod yr argyfwng ac sydd felly wedi ymrwymo i egwyddorion Contract Economaidd yn deall ei rwymedigaethau'n llawn o ran cydraddoldeb ac arferion gwaith teg, a'i fod wedi rhoi ei weithlu ar ffyrlo lle y bo'n briodol. Ei gwneud yn orfodol i'r cyflogwyr hyn gynnal asesiadau priodol o'r effaith ar gydraddoldeb, a gyhoeddir ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

Gan fod y cynllun ffyrlo wedi'i ymestyn tan fis Hydref, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun paru swyddi/adleoli a arweinir gan bartneriaeth gymdeithasol (undeb, cyflogwr, darparwr, sector, arbenigwyr cymunedol) ledled Cymru, a allai fod yn gyfle i ymdrin â'r bylchau mewn galwedigaethau yn ystod yr argyfwng economaidd, gan roi gwell siawns i gymunedau BAME ddod o hyd i waith a lliniaru colledion swyddi hirdymor a mynediad i'r farchnad swyddi. Bydd hyn yn gofyn am ddatblygu cysylltiadau llawer gwell â gwybodaeth ranbarthol a/neu leol am y farchnad lafur a phrinder sgiliau, a fyddai o werth ar ôl yr argyfwng.

21. **Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro a, lle y bo modd, liniaru effaith anghymesur pandemig y coronafeirws a'r dirwasgiad tebygol ar bobl BAME.** *(Yn ddi-oed)*

Fel rhan o ' Ailgodi'n Gryfach ' , sef menter i greu economi drosiannol wyrddach a chyfiawn, dylai Llywodraeth Cymru weithio i sefydlu cynlluniau prentisiaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n targedu gweithwyr BAME a gweithwyr ifanc. Gellid defnyddio cynllun prentisiaeth clodwiw Llywodraeth Cymru fel sail i hyn.
Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Banc Datblygu Cymru. Ei ffocws strategol yw cefnogi busnesau a diogelu swyddi yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr o'r holl fusnesau a mentrau y mae pobl BAME yn berchen arnynt ac yn eu rhedeg sydd wedi cael cymorth gan Fanc Datblygu Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob cynllun datblygu economaidd rhanbarthol (a ddatblygir ar hyn o bryd), ac ymgysylltiad â datblygu'r Cydbwyllgorau Corfforaethol newydd a fydd yn goruchwylio gwaith datblygu economaidd lleol ac â'r gwaith pellach ar gynlluniau i ddisodli cyllid Ewropeaidd yn cynnwys cynrychiolaeth deg gweithwyr, arloeswyr, a pherchenogion busnes o bob sector, ac arweinwyr rhyngblethol o wahanol genedlaethau o gymunedau BAME.

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod prosesau recriwtio dienw a phaneli cyfweld amrywiol yn orfodol yn y sector cyhoeddus datganoledig ac yn rhan o amod unrhyw fusnes neu gwmni sy'n cael cyllid economaidd at ddiben adferiad economaidd a thwf ar ôl COVID.

22. **Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i ymestyn cymorth ariannol i weithwyr yn yr economi gìg a'r hunangyflogedig.** *(Tymor canolig)*

Dylai'r egwyddorion a'r canllawiau ar y defnydd priodol o drefniadau oriau heb eu gwarantu mewn gwasanaethau datganoledig yng Nghymru gael eu cyflwyno ym mhob rhan o'r sector preifat yng Nghymru sydd wedi bod yn cael cymorth gan y llywodraeth yn ystod y pandemig.

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa arbennig ar gyfer gweithwyr sy'n wynebu'r risg o COVID-19 a gaiff ei hymestyn i bawb nad ydynt yn gymwys i gael tâl salwch gan eu cwmni ym mhob sector. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol i bobl hunangyflogedig, megis gyrwyr tacsis a gweithwyr llawrydd, a gweithwyr BAME mewn gwaith ansicr yn y diwydiant bwyd, y celfyddydau a'r sector llety, y mae COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol arnynt.

23. **Gweithio gyda chyflogwyr ac undebau er mwyn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal fel mater o drefn ac yn cael eu hystyried yn fuddsoddiad yn y gweithlu, nid baich na sgil-effaith talu cyflogau isel neu gyflogi gweithwyr ar gontractau dim oriau.** *(Yn ddi-oed)*

Mae'r diffyg cydfargeinio a strwythurau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol yn ffactor allweddol sydd wedi esgor ar broblemau enfawr a hynod beryglus, gan gynnwys o ran dosbarthu cyfarpar diogelu personol, materion iechyd a diogelwch eraill, a gweithwyr a ddylai fod yn hunanynysu sy'n gorfod dewis rhwng methu cael dau ben llinyn ynghyd neu beryglu eu cleientiaid a'u cydweithwyr am mai dim ond Tâl Salwch Statudol y gallant ei gael.

24. Dylai'r contractau caffael ar gyfer contractau dim oriau nodi y dylai pobl agored i niwed, gan gynnwys gweithwyr BAME a gweithwyr sy'n destun gofynion fisa (megis trothwy incwm), allu cael eu talu'n llawn os bydd angen iddynt warchod eu hunain neu roi'r gorau i weithio ar y rheng flaen. *(Tymor canolig)*

Os bydd angen i weithwyr risg uchel a gweithwyr BAME roi'r gorau i weithio ar y rheng flaen, yn dilyn asesiadau risg COVID-19 iechyd a diogelwch unigol, dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i ddiogelu eu hincwm, rhoi sicrwydd swydd iddynt a'u galluogi i gamu ymlaen yn eu gyrfa. I'r rhai sy'n gweithio mewn cartrefi gofal preifat, lle mae cyflogwyr yn dweud na ellir dod o hyd i waith addas amgen i weithwyr, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adleoli gweithwyr yn y GIG neu rannau eraill o lywodraeth leol tra bo'r pandemig yn parhau.

Llywodraeth Cymru i ymrwymo i ehangu'r rhaglen Gwell Swyddi yn Agosach i Gartref a defnyddio hyblygrwydd llawn rheoliadau caffael er mwyn cefnogi cynllun sy'n defnyddio diffiniad ehangach o anfantais na'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu y gallai'r prosiect gynyddu o ran cwmpas yn sylweddol a chynnig cyfleoedd gwaith gwirioneddol a chynaliadwy i weithwyr BAME yng Nghymru.

**Tai a Gorlenwi**

25. Comisiynu ymchwil bellach er mwyn ymchwilio i gysylltiadau posibl rhwng tai gorlawn a haint COVID-19, a gorfodi darparwyr tai ac awdurdodau lleol i weithredu ar yr argymhellion. ***(Yn ddi-oed)***

26. Datblygu opsiynau llety symud ymlaen i ffoaduriaid sy'n gadael llety'r Swyddfa Gartref nad oes ganddynt unrhyw le arall i fynd a lle nad yw'r gwasanaeth cynghori cyfredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ddigon. ***(Tymor canolig)***

**Ymgysylltu â phobl ifanc mewn cymunedau BAME er mwyn hybu iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol**

27. Hyrwyddo Cynllun Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru er mwyn i deuluoedd a phobl ifanc BAME ddeall yn well sut i gydweithio a thargedu cymorth er mwyn atal bylchau cyrhaeddiad rhag tyfu o bosibl fel y nodir yn y Cynllun Parhad Dysgu – ' Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu' ***(Yn ddi-oed)***

28. Cyfarwyddo Awdurdodau Lleol i ddarparu gliniaduron neu iPads a mynediad i'r rhyngrwyd i ddisgyblion BAME sydd dan anfantais gymdeithasol er mwyn iddynt allu parhau i ddysgu, fel y nodir yn y Cynllun Parhad Dysgu sy'n mynd ati i drechu allgáu digidol a darparu adnoddau ac arweiniad i rieni a dysgwyr ar iechyd a llesiant mewn ffordd gynhwysol a theg. ***(Yn ddi-oed)***

**Trechu trais yn erbyn menywod, plant cam-drin domestig a thrais rhywiol (Yn ddi-oed)**

29. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grŵp Arwain ar Drais ar Sail Anrhydedd a sefydliadau BAME er mwyn nodi'r risgiau a'r rhwystrau hyn, a chymryd camau i'w lliniaru.

30. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi sefydliadau menywod BAME fel y gallant sefydlu canolfannau galw heibio dros dro, lle cedwir pellter cymdeithasol, mewn lleoliadau diogel er mwyn cynnig ffordd ddiogel a hygyrch i fenywod gael help ar adeg lle byddant ond yn gadael y tŷ am gyfnodau byr ac ar gyfer tasgau hanfodol, megis siopa am fwyd.

31. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau menywod BAME er mwyn dod o hyd i atebion digonol i ddiogelu a chefnogi menywod BAME a'u plant, lle mae'r sawl sy'n eu cam-drin yn cwtogi ar eu symudiadau, ac yn eu hatal rhag cael cymorth a chael gafael ar adnoddau, a all esgor ar ymyriad brys.

32. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhwydweithiau newyddion a chyfryngau cymdeithasol prif ffrwd a lleiafrifol er mwyn rhannu gwybodaeth am drais yn erbyn menywod a phlant.

33. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried anghenion iaith cymunedau amrywiol a sicrhau y gall darparwyr gwasanaeth gael gafael ar gymorth a gwasanaethau cyfieithu.

**Mynd i'r Afael ag Anfantais ac Anghydraddoldeb Strwythurol a Systemig o ran Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n Deillio o Ddiwylliant Hirsefydledig o Hiliaeth yn ein Cymdeithas Ehangach**

34. Penodi Eiriolwr Cydraddoldeb Hiliol annibynnol i Gymru, er mwyn llywio'r newid strwythurol a pholisi sydd ei angen i drechu anghydraddoldebau hiliol a hiliaeth systemig. ***(Tymor canolig)***

35. Sefydlu Uned Anghyfartaledd Hiliol o fewn Llywodraeth Cymru fel bod materion BAME wrth wraidd y gwaith o lunio polisïau drwy gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data BAME sy'n unigryw i Gymru er mwyn asesu cynnydd wrth wella canlyniadau iechyd a chanlyniadau cymdeithasol ehangach ***(Yn ddi-oed)***

36. Llunio'r Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol i Gymru ac ymrwymo i'w rhoi ar waith mewn addewidion Maniffesto etholiadau yng Nghymru. ***(Yn ddi-oed)***

**Atodiad 3: Aelodaeth yr Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Yr Athro Emmanuel Ogbonna (Cadeirydd) | Prifysgol Caerdydd |
| Daniel Thomas<br>*Gwyddonydd Clinigol (Epidemioleg)* | Iechyd y Cyhoedd<br>Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy |
| Ruth Coombes<br>*Pennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru* | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru |
| Alicja Zalesinska | Tai Pawb |
| Rocio Cifuentes | EYST |
| Shavanah Taj | TUC Cymru |
| Trudy Aspinwall | TGP Cymru |
| Aled Edwards | Cytûn |
| Shereen Williams | Boundaries Wales |
| Gaynor Legall | Heritage and Cultural Exchange |
| Dr Roiyah Saltus<br>*Prif Gymrawd Ymchwil y Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg* | Prifysgol De Cymru |
| Ali Abdi | Race Council |
| Yr Athro Robert Moore | NWREN |
| Maria Mesa | Women Connect First |
| Suzanne Duval | Iechyd Meddwl BAME Diverse Cymru |
| Dr Salamatu Fada<br>*Cadeirydd Cymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru a rhan o Bwyllgor Rheoli Hanes Pobl Dduon RCC* | Cymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru a rhan o Bwyllgor Rheoli Hanes Pobl Dduon RCC |
| Patience Bentu | Race Council Cymru |
| Humie Webbe | Black History Wales a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| Iolanda Banu Viegas | Arweinydd Cymuned Bortiwgeaidd Wrecsam/Arweinydd Llawr Gwlad Hanes Pobl Dduon RCC |

| | |
|---|---|
| Majid Rahman | Cynghorydd Ward Victoria Llafur Cymru<br>Canolfan Ddinesig Casnewydd |
| Naomi Alleyne | CLILC |
| Andrew Holmes<br>*Arweinydd Polisi Grŵp Cynghorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19, Gofal Iechyd Poblogaethau* | Llywodraeth Cymru |
| Jan Firby<br>*Uwch-Reolwr Cyflawni Ansawdd Gofal Iechyd, Gofal Iechyd Poblogaethau* | Llywodraeth Cymru |
| Uzo Iwobi OBE *Cynghorydd Polisi Arbenigol ar Gydraddoldebau* | Llywodraeth Cymru |
| Dr Heather Payne<br>*Uwch-swyddog Meddygol Iechyd Mamau a Phlant, Gofal Iechyd Poblogaethau* | Llywodraeth Cymru |
| Emma Bennett<br>*Pennaeth Cydraddoldeb, Cymunedau* | Llywodraeth Cymru |
| Hannah Fisher<br>*Uwch-reolwr Polisi Hil, Ffydd a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Cymunedau* | Llywodraeth Cymru |
| Phil Jenkins<br>*Pennaeth Cefnogi Cydraddoldeb ESNR* | Llywodraeth Cymru |
| Sarah Ahmad<br>*Economegydd, Dyfodol Ffyniannus* | Llywodraeth Cymru |
| Steven Macey<br>*Swyddog Ymchwil Gymdeithasol, Dyfodol Ffyniannus* | Llywodraeth Cymru |
| Glyn Jones<br>*Prif Ystadegydd KAS* | Llywodraeth Cymru |
| Sue Leake<br>Pennaeth Ystadegau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus *KAS* | Llywodraeth Cymru |
| Eleri Davies<br>*Uwch-reolwr Prosiect FOCUS, AGIC* | Llywodraeth Cymru |
| Stephanie Jones<br>*Cymorth Tîm HSS – Gofal Iechyd Poblogaethau* | Llywodraeth Cymru |